

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 16/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Diweddariad ac Adroddiad Technegol 2012/13



Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:

Diweddariad ac Adroddiad Technegol 2012/13

Chris Taylor¹, Trisha Maynard², Rhys Davies¹, Sam Waldron¹, Mirain Rhys¹, Sally Power¹, Laurence Moore¹, David Blackaby³ ac Ian Plewis⁴

(¹Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)

(² Prifysgol Eglwys Crist Caergaint)

(¹Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Abertawe)

(⁴Prifysgol Manceinion)



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydyw o anghenraid yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

Cewch fwy o wybodaeth gan:

Launa Anderson

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5274

E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN: 978-1-4734-1001-5

© Hawlfraint y Goron 2014

Tabl cynnwys

| | |
|--|----|
| Rhestr o'r Acronymau | i |
| CRYNODEB GWEITHREDOL | ii |
| 1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad..... | 6 |
| 2 Rhaglen Waith ar gyfer Cyfnod II..... | 18 |
| 3 Camau Nesaf 2013/14..... | 30 |
| Cyfeiriadau..... | 55 |
| Rhestr o Dermau Allweddol | 56 |
| Atodiad. Alyson Lewis, Crynodeb o Gynnig Ymchwil PhD yr ESRC | 57 |

Mynegai'r Ffigurau

| | |
|---|----|
| Ffigur 1: Trosolwg o'r Dull Cyflwyno Fesul Tipyn ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen..... | 9 |
| Ffigur 2: Dyluniad a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad | 10 |

Mynegai'r Tablau

| | |
|--|----|
| Tabl 1: Amserlen Ddangosol ar gyfer y Gwerthusiad Tair Blynedd..... | 19 |
| Tabl 2: Rhaglen Waith Fanwl Ddangosol ar gyfer 2012/13 | 20 |
| Tabl 3: Crynodeb o Astudiaethau Achos yn ôl Rhanbarth..... | 24 |
| Tabl 4: Crynodeb o Ysgolion Astudiaeth Achos yn ôl Cyfnod Gweithredu..... | 24 |
| Tabl 5: Enghraifft o Ymweliad ag Ysgol Astudiaeth Achos..... | 26 |
| Tabl 6: Crynodeb o ddibynadwyedd rhwng y rhai oedd yn graddio (IRR) ar gyfer Arsylwadau Ystafell Ddosbarth | 27 |
| Tabl 7: Maint Terfynol y Sampl yng Nghyfnod I a Chyfnod II | 28 |
| Tabl 8: Fframwaith Dadansoddi'r Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen | 41 |

Rhestr o'r Acronymau

| | |
|----------|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| ACM | Astudiaeth Carfan y Mileniwm |
| AU | Addysg Uwch |
| BERA | Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DECIPHer | Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd |
| ESRC | Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol |
| Estyn | Estyn yw swyddfa Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| NPD | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru |

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad a Nodau'r Adroddiad

1. Yn yr adroddiad hwn, amlinellwn gynnydd y gwerthusiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2012/13). Hefyd, rhown fanylion am Gyfnod II y gwerthusiad; i raddau helaeth, mae wedi cynnwys casglu gwybodaeth fanwl am weithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn pedwar deg un ysgol a deg lleoliad a ariennir nas cynhelir ym mhob cwr o Gymru.
2. Prif bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar (i blant 3-7 oed) yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n newid cyfeiriad sylweddol o'r dull mwy ffurfiol ar sail galluoedd oedd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, ac mae'n hyrwyddo dull addysgu a dysgu datblygiadol, trwy chwarae a thrwy brofiad. Mae'r polisi wedi'i gyflwyno fesul tipyn dros y saith mlynedd diwethaf er mwyn iddo gynnwys pob plentyn 3-7 oed yng Nghymru erbyn 2011/12.
3. Ar ran Gweinidogion Cymru, gwahoddodd Llywodraeth Cymru dendrau ym mis Ebrill 2011 i gynnal gwerthusiad annibynnol tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr, o dan arweiniad yr Athro Chris Taylor o Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011.
4. Dyma bedwar prif nod y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014), fel yr amlinellodd Llywodraeth Cymru ym manylion y tendr ymchwil gwreiddiol:
 - gwerthuso pa mor dda mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith ac amlygu pa welliannau allai gael eu gwneud (gwerthusiad o'r broses)
 - gwerthuso pa effaith mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma (gwerthusiad o'r deilliannau)
 - asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (y gwerthusiad economaidd)

- sefydlu fframwaith gwerthuso er mwyn olrhain allbynnau a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y fframwaith gwerthuso).
5. Cyflwynodd adroddiad blynyddol cyntaf y gwerthusiad ar gyfer 2011/12 (Taylor *et al.* 2013) waith y gwerthusiad yn ystod ei flwyddyn gyntaf a rhoddodd grynodedb o'r ymchwil a'r canfyddiadau o Gyfnod I y gwerthusiad. Amlinellodd ymagwedd a methodoleg y gwerthusiad hefyd.
 6. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r rhaglen waith ar gyfer blwyddyn olaf y gwerthusiad, sy'n cynnwys Cyfnod III dyluniad y gwerthusiad a fframwaith dadansoddi sy'n cynnig y sylfaen ar gyfer dull y gwerthusiad o drefnu ei ddadansoddi a'i adrodd.

Crynodeb o Gynnydd

7. Mae'r gwerthusiad yn parhau i fynd yn ei flaen yn dda. I raddau helaeth, treuliyd 2012/13 yn datblygu a chyflawni Cyfnod II dyluniad y gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys dewis a chynnal ymweliadau â 41 ysgol sy'n astudiaethau achos a 10 lleoliad a ariennir nas cynhelir sy'n astudiaethau achos.
8. Yn ystod 2012/13, cyhoeddwyd tri adroddiad gwerthuso (Maynard *et al.* 2013, Taylor *et al.* 2013 a Davies *et al.* 2013).
9. Cyflwynwyd y gwerthusiad a'i ganfyddiadau rhagarweiniol i Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru, Grŵp Cynghori Tîm y Gwerthusiad a Grŵp Cynghorwyr Cymru Gyfan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (AWFPA) yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyflwyniadau gan dîm y gwerthusiad mewn tair seminar/cynhadledd academiaidd ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
10. Yn olaf, croesawodd tîm y gwerthusiad Alyson Lewis, myfyriwr ymchwil PhD wedi'i hariannu gan yr ESRC, sydd wedi dechrau astudiaeth archwiliadol gysylltiedig yn ymchwilio i, a chael darlun o, les cymdeithasol ac emosiynol plant yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen (plant 3-7 oed).

Cyfnod II y Gwerthusiad

11. I raddau helaeth, roedd Cyfnod II y gwerthusiad yn cynnwys cyfres gyntaf yr ymweliadau ag astudiaethau achos. Roedd hyn yn cynnwys 41 ysgol

astudiaeth achos a 10 lleoliad a ariennir nas cynhelir. Dewiswyd ysgolion gan ddefnyddio samplu haenedig ar hap er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Gwahanol ranbarthau o Gymru
- Gwahanol gyfnodau pan gyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion
- Ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg

12. Cynhaliwyd yr ymweliadau ag astudiaethau achos rhwng Ionawr a Mehefin 2013. Roedd ymweliad nodweddiadol ag ysgol yn para deuddydd ac yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Arsylwi plant a staff mewn dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
- Arolwg o athrawon ystafell ddosbarth
- Cyfweiliadau â phenaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen
- Cyfweiliadau neu grwpiau ffocws gyda Chynorthwyr Addysgu a Dysgu
- Arolwg o ddisgyblion Blwyddyn 2

Rhaglen Waith 2013/14

13. Rhennir rhaglen waith y gwerthusiad yn ystod 2013/14 yn dair rhan: (i) Cyfnod III dyluniad y gwerthusiad, (ii) fframwaith dadansoddi, ac (iii) adrodd a chyfathrebu.

14. Mae tair prif elfen i'r gwaith maes yng Nghyfnod III dyluniad y gwerthusiad, sef:

- Arolwg o rieni/gofalwyr;
- Cyfweiliadau ag athrawon Blwyddyn 3; a
- Gweithgareddau gyda phlant

15. Nod yr arolwg rhieni/gofalwyr yw casglu canfyddiadau rhieni a gofalwyr am y Cyfnod Sylfaen, mewn egwyddor ac yn ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys dosbarthu arolwg i holl rieni/gofalwyr plant yn y Cyfnod Sylfaen a Blynyddoedd 3 a 4 yn yr ysgolion sy'n astudiaethau achos.

16. Prif nod y cyfweiliadau ag athrawon Blwyddyn 3 fydd casglu amgyffredion athrawon Blwyddyn 3 am y Cyfnod Sylfaen, mewn egwyddor ac yn

ymarferol, gan ganolbwyntio ar y pontio gan blant o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 (CA2).

17. Bydd athrawon Blwyddyn 3 sydd wedi bod yn addysgu am nifer o flynyddoedd o'r holl ysgolion sy'n astudiaethau achos yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn.
18. Prif nod ymgymryd â gweithgareddau pellach gyda phlant, yn y lle cyntaf, fydd cynnal cyfres o Grwpiau Ffocws Blwyddyn 2 a Theithiau Ystafell Ddosbarth Blwyddyn 1 fel bod barn a phrofiadau plant ynghylch y Cyfnod Sylfaen yn cael mwy o ddylanwad ar ein gwerthusiad. Ac, yn ail, i asesu a yw disgyblion Blwyddyn 2 o ysgolion sydd, yn ôl pob golwg, wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn, yn meddu ar sgiliau meddwl/datrys problemau grŵp gwell na disgyblion mewn ysgolion nad ydynt, yn ôl pob golwg, wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaeth iawn.
19. Bydd hyn yn cynnwys plant o saith o'r ysgolion sy'n astudiaethau achos a, gyda'u caniatâd nhw a'u rheini, bydd yn cynnwys recordiad fideo o'u hymatebion, eu trafodaethau a'u gweithgareddau.
20. Rhan bwysig arall o raglen waith 2013/14 fydd dadansoddi'r canfyddiadau ac adrodd arnynt. Datblygwyd fframwaith dadansoddi sy'n amlygu nifer o bynciau a themâu allweddol y mae disgwyl iddynt fod yn sylfaen yr Adroddiad Gwerthuso Terfynol.
21. Mae'r gwerthusiad yn disgwyl llunio cyfres o Bapurau Gwaith ar y pynciau hyn.
22. Bydd yr Adroddiadau Gwerthuso a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r dadansoddiad manwl hwn i amlinellu'r canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad.
23. Ochr yn ochr â'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol hwn, bydd tîm y gwerthusiad hefyd yn trefnu cynhadledd yn 2014 i rannu ei brif ganfyddiadau.

1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad

- 1.1 Yn ôl pob golwg, mae'r Cyfnod Sylfaen yn wahanol iawn i'r ymagwedd fwy ffurfiol ar sail galluedd at addysg gynnar plant, sydd weithiau wedi'i chysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gan ddefnyddio tystiolaeth o raglenni blynyddoedd cynnar da yn Sgandinafia, Reggio Emilia a Seland Newydd (Te Whāriki), sy'n awgrymu bod mabwysiadu cwricwlwm rhy ffurfiol a dull addysgu ffurfiol eang cyn i blant gyrraedd chwech neu saith oed yn gallu arwain at safonau cyrhaeddiad is maes o law, mae'n hyrwyddo ymagwedd at ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu trwy brofiad ar gyfer plant 3 i 7 oed. Mae'n pwysleisio mai'r plentyn ddylai fod yn ganolog, yn ogystal ag arwyddocâd lles plant, ac mae'n hyrwyddo cydbwysedd o weithgareddau a gychwynnir gan blant a'u cyfarwyddo (neu eu cychwyn) gan yr ymarferwyr mewn amgylcheddau ysgogol o dan do ac yn yr awyr agored.
- 1.2 Ar ran Gweinidogion Cymru, gwahoddodd Llywodraeth Cymru dendrau ym mis Ebrill 2011 i gynnal gwerthusiad annibynnol tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr, o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd ac ar y cyd â Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011. Cost y gwerthusiad yw £986,500.
- 1.3 Mae'r tîm ymchwil yn cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac maent yn dod o nifer o wahanol brifysgolion yng Nghymru a Lloegr:
- Yr Athro Chris Taylor (Cyfarwyddwr) (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
 - Yr Athro Trisha Maynard (Cyd-gyfarwyddwr) (Prifysgol Eglwys Crist Caergaint)
 - Yr Athro Laurence Moore (Prifysgol Caerdydd a DECIPHer)
 - Yr Athro Sally Power (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
 - Yr Athro David Blackaby (Prifysgol Abertawe a WISERD)
 - Yr Athro Ian Plewis (Prifysgol Manceinion)

- Mr Rhys Davies (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Dr Sam Waldron (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Dr Mirain Rhys (Prifysgol Caerdydd a WISERD)

- 1.4 Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Awst 2011 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2014.
- 1.5 Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dull cyflwyno fesul tipyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd olynol y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ar draws nifer o wahanol ysgolion a lleoliadau ar adegau gwahanol. Yn benodol, mae llawer o'r gwerthuso'n canolbwyntio ar gymharu carfanau olynol o blant sydd wedi bod trwy dair cyfres o leoliadau ysgol yn ystod gwahanol gyfnodau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen: lleoliadau'r Cyfnod Peilot, lleoliadau'r Cyfnod Dechrau Cynnar a lleoliadau'r Cyfnod Cyflwyno Terfynol. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau ei fod yn cael darlun o gynifer â phosibl o agweddau ar weithredu, cyflwyno ac effeithiau rhaglen y Cyfnod Sylfaen.
- 1.6 Amlinellodd yr adroddiad blynyddol cyntaf (Taylor *et al.* 2013) ddyluniad a methodoleg y gwerthusiad yn fanwl ac adroddodd ar waith y gwerthusiad yn ystod ei flwyddyn gyntaf, sef y cyfnod rhwng Awst 2011 a Gorffennaf 2012. Roedd hyn yn cyd-fynd â Chyfnod 1 dyluniad y gwerthusiad. Fe wnaeth yr adroddiad grynhoi'r gwaith a gwblhawyd bryd hynny ac amlygu'r canfyddiadau allweddol o'r cyfnod hwnnw.
- 1.7 Yn y Bennod hon, rydym yn cyflwyno'r gwerthusiad a'i ddyluniad cyffredinol yn gryno iawn. Mae mwy o fanylion i'w cael yn Taylor *et al.* (2013).

Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad


- 1.8 Mae gan y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014) bedwar prif nod, fel yr amlinellodd Llywodraeth Cymru ym manylion y tendr ymchwil gwreiddiol:
- gwerthuso pa mor dda mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith ac amlygu pa welliannau y gellir eu gwneud (gwerthusiad o'r broses)
 - gwerthuso pa effaith mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma (gwerthusiad o'r deilliannau)
 - asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (y gwerthusiad economaidd)
 - sefydlu fframwaith gwerthuso er mwyn olrhain allbynnau a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y fframwaith gwerthuso).
- 1.9 Mae'r *Gwerthusiad o'r Broses* yn ymwneud yn bennaf â gwerthuso sut y rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae'r *Gwerthusiad o'r Deilliannau* yn ymwneud yn bennaf â deilliannau neu effeithiau'r Cyfnod Sylfaen ar alluoedd plant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r *Gwerthusiad Economaidd* yn rhoi cynnig ar gynnal dadansoddiad cost a budd o'r Cyfnod Sylfaen. Allbwn allweddol terfynol y gwerthusiad fydd datblygu *Fframwaith Gwerthuso* er mwyn ategu gwerthusiadau o'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.
- 1.10 Mae'r gwerthusiad yn ymrwymo i lunio amrywiaeth o allbynnau, yn rheolaidd, er mwyn lledaenu'r ymchwil a'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru, ysgolion, ymarferwyr a'r cyhoedd yn ehangach. Mae'r rhain wedi'u dylunio a'u hysgrifennu gyda chynulleidfaoedd gwahanol mewn golwg, ac maent yn cynnwys:
- gwefan werthuso er mwyn lledaenu canfyddiadau ac ennyn diddordeb unigolion neu randdeiliaid sydd â budd yn y gwaith (www.wiserd.ac.uk/foundationphase)

- adroddiadau blynyddol: yn cynnwys crynodebau ac adroddiadau ymchwil manylach
- adroddiadau ar agweddau penodol ar y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys enghreifftiau o arfer da
- teipoleg gweithredu wedi'i seilio ar yr astudiaethau achos
- datblygu 'theori rhaglen' sy'n sail i weithredu'r Cyfnod Sylfaen at ddiben ei werthuso a
- llunio Fframwaith Gwerthuso er mwyn monitro a gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn y dyfodol.

Dyluniad a Methodoleg


1.11 Fe wnaeth nifer o ystyriaethau yn gysylltiedig â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ddylanwadu ar ddatblygiad methodoleg a dyluniad yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn. Y brif nodwedd sy'n sail ar gyfer dylunio'r gwerthusiad hwn yw'r ffordd y cafodd y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno'n olynol dros amser. Yn y gwerthusiad hwn, rydym felly'n gwahaniaethu rhwng ysgolion/lleoliadau yn y tri chyfnod gweithredu (Ffigur 1). Caiff nodweddion allweddol eraill y Cyfnod Sylfaen eu hamlinellu yn Taylor *et al.* (2013).

Ffigur 1: Trosolwg o'r Dull Cyflwyno Fesul Tipyn ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen



- 1.12 Mae strwythur cyffredinol y gwerthusiad hwn yn dilyn dull cyflwyno fesul tipyn (Brown a Lilford 2006; Hussey a Hughes 2007). Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn olynol ar draws nifer o ysgolion/lleoliadau ar dri chyfnod gweithredu gwahanol, sef Lleoliadau Peilot, Dechrau Cynnar a Chyflwyno Terfynol (gweler Ffigur 1). Mae hyn yn ein galluogi i gymharu clystyrau o blant a dderbyniodd y Cyfnod Sylfaen yn gynnar â chlystyrau o blant o'r un garfan na ddilynodd y Cyfnod Sylfaen, sef clystyrau rheoli. Mae hyn yn cyfrannu at y gwerthusiad o'r deilliannau.
- 1.13 Mae'r gwerthusiad yn defnyddio ystod eang o ddata a thystiolaeth feintiol ac ansoddol, sy'n seiliedig ar gasglu data gwreiddiol a defnyddio data sydd eisoes yn bodoli (data gweinyddol ac arall). Trefnwyd hyn ar ddwy lefel ddaearyddol: ar lefel *genedlaethol*, ac ar lefel ysgolion unigol fel *astudiaethau achos* (gweler Ffigur 2).

Ffigur 2: Dyluniad a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad



- 1.14 Cesglir data mewn tri chyfnod yn ystod y gwerthusiad: Cyfnod I (Ionawr 2012-Medi 2012); Cyfnod II (Medi 2012-Mehefin 2013); a Chyfnod III (Medi 2013-Ebrill 2014).
- 1.15 Roedd Cyfnod I y gwerthusiad yn cynnwys (a) tystiolaeth ddogfennol yn ymwneud â *dyluniad y Cyfnod Sylfaen a sut y cafodd ei roi ar waith a'i gyflwyno*: Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau,

fel dogfennau polisi, canllawiau, deunyddiau hyfforddi a deunyddiau'r cwricwlwm. Datblygwyd fframwaith damcaniaethol i ddadansoddi'r ddogfennaeth oedd ar gael. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn yn bennaf i ddatblygu'r Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen cychwynnol ar gyfer gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (Maynard *et al.* 2013); (b) *arolwg cenedlaethol o benaethiaid, rheolwyr canolfannau ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen i gynrychioli pob un o leoliadau'r Cyfnod Sylfaen*: casglodd hwn wybodaeth ac ymatebion ynglŷn â chymwysterau staff, cymarebau staff-disgybl, defnyddio cynorthwywyr dosbarth, defnyddio amgylcheddau awyr agored, meini tramgwydd cyflwyno, gwariant, rhwystrau rhag gweithredu ac agweddau tuag at y Cyfnod Sylfaen; (c) *cyfweiliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol*: roedd hwn yn wahoddiad i drafod y gefnogaeth a roddir i athrawon, darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, strategaethau monitro a gwerthuso, a rhannu data; (d) *dadansoddiad cychwynnol o ddata addysgol gweinyddol* (Cyfrifiad Blynnyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion (PLASC) a Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD)): fe wnaeth hwn ystyried yr effaith yr ymddengys bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ei chael ar bresenoldeb, asesiadau gan athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen, ac asesiadau gan athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

- 1.16 Mae mwy o fanylion yn ymwneud â Chyfnodau II a III y gwerthusiad yn cael eu trafod ym Mhenodau 3 a 4, yn y drefn honno.

Trefnu a Gweinyddu

- 1.17 Prif ymchwilydd a chyfarwyddwr y gwerthusiad yw'r Athro Chris Taylor, o'r Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff yr Athro Taylor ei gynorthwyo gan y cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Trisha Maynard (Prifysgol Eglwys Crist Caergaint). Ochr yn ochr â'r cyfarwyddwr a'r cyd-gyfarwyddwr y mae grŵp o uwch-academyddion sy'n gweithio mewn nifer o brifysgolion yng Nghymru a Lloegr, sy'n rhoi cymorth

angenrheidiol yn eu disgyblaethau a'u meysydd arbenigedd penodol yn ôl yr angen.

- 1.18 Mae cyfarwyddwr y gwerthusiad yn rhoi adroddiadau misol rheolaidd i reolwr cytundeb y gwerthusiad yn Llywodraeth Cymru, sef Launa Anderson yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.
- 1.19 Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu ac yn cydlynu grŵp Cyngori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys staff o'r Adran Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cydweithwyr sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â chydweithwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp cyngori yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn ac awdurdodau lleol hefyd. Mae cylch gorchwyl y grŵp hwn wedi'i amlinellu yn Taylor *et al.* (2013).
- 1.20 Yn ystod 2012/13 (Rhan II y gwerthusiad), cyfarfu Grŵp Cyngori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru ddwywaith: 18 Hydref 2012 a 17 Mai 2013.
- 1.21 Yn ogystal, mae gan dîm y gwerthusiad Grŵp Cyngori Tîm y Gwerthusiad sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Grŵp hwn yn cynnwys penaethiaid, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, rhanddeiliaid allweddol o'r sector AU (gan gynnwys ymchwilwyr academiaidd blaenllaw a darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon), a chynrychiolwyr o'r sector nas cynhelir. Mae cylch gorchwyl y grŵp hwn hefyd i'w weld yn Taylor *et al.* (2013).
- 1.22 Yn ystod 2012/13, cyfarfu Grŵp Cyngori Tîm y Gwerthusiad unwaith: 20 Tachwedd 2012, er mwyn helpu i ddatblygu dyluniad a dulliau gwerthuso Cyfnod II.

Moeseq

- 1.23 Mae'r prif ymchwilydd yn aelod o Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA), ac mae'r gwerthusiad yn cadw at Ganllawiau Moesegol BERA ar gyfer Ymchwil Addysgol 2004 yn ogystal â Siarter Arferion Da wrth Ddefnyddio Ymchwilwyr o Dan Gytundeb BERA (2001). Mae cymeradwyaeth foesegol ymlaen llaw ar gyfer pob rhan o'r gwerthusiad yn cyd-fynd â Fframwaith Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd ac mae pob ymchwilydd wedi cael gwiriad cychwynnol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- 1.24 Trwy gydol y gwerthusiad, lluniwyd taflenni gwybodaeth manwl (Cymraeg a Saesneg) i bawb a allai fod yn cymryd rhan, yn eu gwahodd i wneud. Yn achos yr arsylwadau ar yr astudiaethau achos (gweler Pennod 3), cynigir cydsyniad deallus i dynnu nôl¹ i bob rhiant/gofalwr.
- 1.25 Cyflwynir cais am sêl bendith foesegol ar gyfer Cyfnod III y gwerthusiad yn ystod Medi 2013.
- 1.26 Mae'r tîm yn cadw at y canllawiau moesegol ar gyfer ymchwil a bennwyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd a BERA a chaiff yr holl waith ei wneud yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Caiff pob ysgol sy'n cymryd rhan a'r rhai sy'n ymateb sicrwydd bod y canlyniadau'n cael eu cyflwyno'n gyfrinachol. Ni enwir unrhyw staff unigol mewn adroddiadau, a chymerir gofal arbennig i sicrhau na ellir adnabod unrhyw ysgol ac ati pan ddefnyddir technegau astudiaethau achos.
- 1.27 Wrth ddefnyddio a dadansoddi data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi data anhysbys am ddisgyblion unigol. Dim ond newidynnau sydd yn y data gan olygu nad oes modd adnabod disgyblion unigol ac ni ellir ei gysylltu â data arall a

¹ Anfonwyd llythyr at bob rhiant/gofalwr yn rhoi gwybod iddynt am natur yr ymchwil a gofyn iddynt roi gwybod i'r Ysgol os nad oeddent yn dymuno i'w plentyn gymryd rhan.

allai roi manylion adnabod disgyblion unigol. Caiff y dadansoddiadau o ddata ar lefel disgyblion eu cyflwyno ar gyfer carfanau a grwpiau penodol a bydd data sy'n cynnwys enwau unigol yn cael ei gadw'n gwbl gyfrinachol.

Cyfathrebu a Lledaenu

- 1.28 Mae gan Werthusiad y Cyfnod Sylfaen ei dudalennau ei hun ar wefan WISERD. Dyma'r ddolen: www.wiserd.ac.uk/foundationphase. Gellir cysylltu â thîm y gwerthusiad drwy e-bost (fpevaluation@caerdydd.ac.uk) neu dros y ffôn (029 2087 9338).
- 1.29 Yn ystod blwyddyn olaf y gwerthusiad, mae'r tîm ymchwil yn disgwyl llunio cyfres o Bapurau Gwaith (gweler Pennod 5) a fydd yn sylfaen yr adroddiadau gwerthuso terfynol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- 1.30 Mae'r holl adroddiadau terfynol a gyhoeddir gan y gwerthusiad ar gael o wefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?lang=cy> ac mae mwy o fanylion am y gwerthusiad i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/eval/?skip=1&lang=cy

Cynnydd yn ystod 2012/13

- 1.31 Bu cynnydd yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad (2012/13) yn dda. Mae'r gwerthusiad yn parhau ar drywydd i'w gwblhau erbyn Awst 2014 pan ddisgwylir llunio adroddiad gwerthuso terfynol.
- 1.32 I raddau helaeth, mae ail flwyddyn y gwerthusiad wedi cynnwys casglu data ar gyfer Cyfnod II dyluniad y gwerthusiad (gweler Pennod 2). Ochr yn ochr â hyn, mae tîm y gwerthusiad wedi ymgymryd â gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â'r gwerthusiad, sy'n cael eu crynhoi yn y fan hon.

1.33 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dri adroddiad gan dîm y gwerthusiad yn ystod 2012/13 a'u rhoi ar ei gwefan wedi hynny, sef:

Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 37/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S., a Blackaby, D. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Deiliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 47/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

1.34 I sicrhau bod ein dadansoddiad, ein dehongliad a'n canfyddiadau yn drylwyr a chyfiawn, rydym o'r farn bod cael adborth ffurfiannol ar ein hymchwil gan ein cymheiriaid academiaidd yn bwysig. Yn ystod 2012/13, gwnaethom gais llwyddiannus i drefnu sesiwn ar werthuso'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) ym Mhrifysgol Sussex, Brighton, rhwng 3 a 5 Medi 2013. Cynigwyd pedwar cyflwyniad o'r gwerthusiad.

1.35 Hefyd, gwnaed cyflwyniadau academiaidd eraill yn y canlynol:

- Grŵp Ymchwil Dadansoddi Polisi Addysg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd (9 Ionawr 2013)
- Cynhadledd Flynyddol WISERD – Prifysgol De Cymru (25 Gorffennaf 2013)

- 1.36 Yn ogystal, mae tîm y gwerthusiad wedi mynychu a chyflwyno'r ymchwil i Grŵp Cynghorwyr Cymru Gyfan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (AWFPA) ddwywaith yn ystod y flwyddyn –28 Tachwedd 2012 (Caerdydd) ac 11 Gorffennaf 2013 (Caerdydd).
- 1.37 Hefyd, rhoddwyd cyflwyniad i nodau a chynllun ymchwil y Cyfnod Sylfaen yn yr Eisteddfod Genedlaethol (8 Awst 2013) – *Gwerthuso polisi Cyfnod Sylfaen ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar*.
- 1.38 Ni ddigwyddodd seminar oedd wedi ei drefnu ar ddefnydd yr amgylchedd awyr agored, anghenion addysgol arbennig a'r iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ymarferwyr, gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yn eu lle, mae bwriad cynnal gweithdai yn 2013/14, ceir manylion pellach ym mhennod 3.
- 1.39 Yn olaf, yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, llwyddodd tîm yr ymchwil i gystadlu am ysgoloriaeth ymchwil PhD wedi'i hariannu gan yr ESRC. Mae'r ysgoloriaeth ymchwil yn talu ffioedd dysgu ac yn rhoi cyflog i'r myfyriwr llwyddiannus am dair blynedd. Ysgoloriaeth ymchwil fawreddog yw hon a leolir yng Nghanolfan Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru gyfan (bydd y myfyriwr yn cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cael ei oruchwylio yno). Yn sgil cystadleuaeth agored, yr ymgeisydd llwyddiannus oedd Alyson Lewis.
- 1.40 Dechreuodd y prosiect ymchwil doethurol cysylltiedig hwn ym Medi 2012 ac, yn sgil trafodaeth â Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth ganddi, bydd hwn yn astudiaeth archwiliadol sy'n ymchwilio i, a chael darlun o, les cymdeithasol ac emosiynol plant yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen (plant 3-7 oed). Ei brif nodau a chwestiynau ymchwil yw:
- Dangos a dadlau bod y cysyniad o les cymdeithasol ac emosiynol plant yn gymhleth o ran theori ac ymarfer;

- Archwilio a datblygu dulliau sy'n cael darlun o les cymdeithasol ac emosiynol plant yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen;
- Pa mor dda y mae staff y Cyfnod Sylfaen yn deall, yn cofnodi ac yn asesu lles mewn dwy ysgol wahanol a sut mae lles wedi'i ymgorffori yn yr ystafell ddosbarth?
- Pa nodweddion sy'n bresennol mewn dulliau newydd neu rai cyfredol sy'n eu gwneud yn fwy dibynadwy wrth gael darlun o agwedd benodol ar les cymdeithasol ac emosiynol? a
- Pha rwystrau sy'n bodoli o ran datblygu dulliau newydd a rhai cyfredol sy'n cael darlun o agweddau ar les cymdeithasol ac emosiynol?

Ceir manylion pellach yn Atodiad A.

2 Rhaglen Waith ar gyfer Cyfnod II

- 2.1 Mae'r holl weithgareddau a restrwyd yn fras ar gyfer 12 mis cyntaf y gwerthusiad wedi'u cyflawni i raddau helaeth. Roedd y rhain yn cynnwys Cyfnod I dyluniad y gwerthusiad.
- 2.2 Yn yr adroddiad blynyddol cyntaf (Taylor *et al.* 2013), cyflwynom gynigion manwl ar gyfer dyluniad a chynnwys Cyfnod II yr ymchwil a'r rhaglen waith ddilynol ar gyfer ail flwyddyn y gwerthusiad. Caiff y rhain eu crynhoi yn Nhabl 2 ac mae'n cynnwys ein cerrig milltir ac allbynnau allweddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- 2.3 Gwnaed nifer o newidiadau i'r rhaglen waith ddangosol hon. Oherwydd pwysigrwydd a chynnwys sylweddol tri o'r adroddiadau, bu oedi cyn eu cyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn. Roedd i hynny nifer o oblygiadau a'r pennaf oedd ein penderfyniad i ddal yr ail ddadansoddiad o ddata'r NPD yn ôl tan flwyddyn olaf y gwerthusiad. Byddai hyn wedi cynnwys blwyddyn arall o ddata gweinyddol sy'n ategu'r dadansoddiad cychwynnol (Davies *et al.* 2013). Yn hytrach, bwriedir cyhoeddi ail a thrydydd iteriad o hyn yn 2014 (gweler Pennod 3).
- 2.4 Hefyd, penderfynom beidio â chyhoeddi adroddiadau ar wahân ar gyfer y dadansoddiad o'r arolwg cenedlaethol o benaethiaid cynradd a lleoliadau a ariennir nas cynhelir a'r dadansoddiad o gyfweliadau gydag awdurdodau lleol. Yn hytrach, bydd dadansoddiadau a chanfyddiadau o'r ddwy elfen hon (o Gyfnod I y gwerthusiad) yn cael eu cynnwys gyda'r dadansoddiadau a'r canfyddiadau o Gyfnod II y gwerthusiad ac yn ymddangos yn ein hamserlen adrodd ar gyfer blwyddyn olaf y gwerthusiad (gweler Pennod 3).

Tabl 1: Amserlen Ddangosol ar gyfer y Gwerthusiad Tair Blynedd

| | Casglu Data | Dadansoddi Data | Cerrig Milltir/ Allbynnau Allweddol |
|--------|--|--|---|
| 6 mis | <ul style="list-style-type: none"> Dechrau casglu tystiolaeth ddogfennol Cynnal arolwg cenedlaethol o benaethiaid a rheolwyr canolfannau | | <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu gwefan y gwerthusiad |
| 12 mis | <ul style="list-style-type: none"> Cyfweliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cau pen y mwdwl ar ganfod y data cyfredol sydd ar gael Cwblhau'r sampl o leoliadau ar gyfer casglu data'r astudiaethau achos | <ul style="list-style-type: none"> Nodweddion sylfaen Dadansoddiad cychwynnol o ystadegau crynodol | <ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o'r arolwg cenedlaethol o benaethiaid a rheolwyr canolfannau Adroddiad Blynyddol Diwedd Blwyddyn 1 |
| 18 mis | <ul style="list-style-type: none"> Cyfweliadau gyda phenaethiaid yn ysgolion yr astudiaethau achos Cyfweliadau gydag athrawon yn ysgolion yr astudiaethau achos Cyfres gyntaf o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol | <ul style="list-style-type: none"> Y dadansoddiad gwreiddiol ac eilaidd o'r dulliau mesur deilliannau | <ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o'r cyfweliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cwblhau Theori Rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – fel sail ar gyfer dadansoddi deilliannau a sylfeini'r Fframwaith Gwerthuso yn y dyfodol |
| 24 mis | <ul style="list-style-type: none"> Ail gyfres o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion Cynnal holiadur y rhieni Cynnal arolwg y disgyblion Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol | <ul style="list-style-type: none"> Y trydydd dadansoddiad o'r dulliau mesur deilliannau Modelu ar sawl lefel | <ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o'r cyfweliadau gyda phenaethiaid ac athrawon yn lleoliadau'r astudiaethau achos Adroddiad Blynyddol Diwedd Blwyddyn 2 |

| | | | |
|--------|---|--|--|
| 30 mis | <ul style="list-style-type: none"> • Trydedd gyfres o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion • Arsyllwadau a chyfweliadau ychwanegol mewn lleoliadau cyn-ysgol • Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol | <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad arhydol | <ul style="list-style-type: none"> • Canfyddiadau cychwynnol o holiadur y rhieni ac arolwg y disgyblion |
| 36 mis | | <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau dadansoddiadau drwy ddefnyddio data cyfredol a data gwreiddiol ar y cyd | <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Terfynol ar Ddiwedd y Gwerthusiad |

Tabl 2: Rhaglen Waith Fanwl Ddangosol ar gyfer 2012/13

2012/13

Medi 2012

Dulliau casglu data peilot ar gyfer ymweliadau astudiaethau achos
 Cau pen y mwdwl ar sampl yr astudiaethau achos
 Ail-anfon arolwg cenedlaethol yr ysgolion/lleoliadau

Hydref 2012

Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad y Model Rhesymeg Polisi' i'w gyhoeddi
 Drafftio 'Adroddiad Blynyddol 2011/12'
 Drafftio'r 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf'
 Drafftio 'Adroddiad Ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol'
 Dechrau cysylltu ag 20 ysgol astudiaeth achos

Tachwedd 2012

Cwblhau 5 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
 Cau pen y mwdwl ar yr 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf' i'w gyhoeddi
 Cyhoeddi 'Adroddiad y Model Rhesymeg Polisi'
 Gorffen mewnbwnnu data o arolwg cenedlaethol yr ysgolion/lleoliadau

Ceisiadau newydd am ddata PLASC/NPD ar gyfer Cyfnod II

Rhagfyr 2012

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad Blynyddol 2011/12' i'w gyhoeddi
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad Ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol' i'w gyhoeddi
Cyhoeddi'r 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf'
Dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion i'r arolwg cenedlaethol
Derbyn data PLASC/NPD newydd gan Lywodraeth Cymru

Ionawr 2013

Cysylltu â'r 20 ysgolion astudiaeth achos sy'n weddill
Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
Galw am bapurau ar gyfer Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen
Cyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol 2011/12'
Cyhoeddi 'Adroddiad Ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol'
Cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o arolwg cenedlaethol yr ysgolion/ lleoliadau i Lywodraeth Cymru
Cwblhau'r cyfweiliadau sy'n weddill gyda'r rhanddeiliaid
Dechrau'r dadansoddiad gan ddefnyddio data PLASC/NPD newydd

Chwefror 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
Drafftio 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol'

Mawrth 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol' i'w gyhoeddi
Cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad cychwynnol o ddata PLASC/NPD wedi'i ddiweddarau

Ebrill 2013

Dewis lleoliadau ychwanegol a ariennir nas cynhelir a chysylltu â nhw
Cau pen y mwdwl ar raglen Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen

Mai 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion astudiaeth achos
Cyhoeddi 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol'
Drafftio'r 'Ail Adroddiad Dadansoddi Data'

Mehfin 2013

Cwblhau'r ymweliadau ychwanegol â lleoliadau a ariennir nas cynhelir

Gorffennaf 2013

Cwblhau'r ymweliadau ychwanegol â lleoliadau a ariennir nas cynhelir
Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen (Caerdydd)
Dechrau dadansoddi ymweliadau astudiaethau achos Cyfnod II
Cau pen y mwdwl ar yr 'Ail Adroddiad Dadansoddi Data' i'w gyhoeddi

- 2.5 Er gwaethaf y newidiadau hyn, aeth y gwaith casglu data a oedd ynghlwm wrth Gyfnod II y gwerthusiad yn ei flaen yn ôl y disgwyl. Roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â chyfres gyntaf yr ymweliadau ag ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir sy'n astudiaethau achos. Roedd pum mis cyntaf y flwyddyn yn cynnwys datblygu'r holl offer ymchwil a ddefnyddiwyd yn yr ymweliadau astudiaethau achos, a chynnal peilot gofalus o'r offer hyn. Dechreuodd yr ymweliadau terfynol â'r astudiaethau achos yn Ionawr 2013, gan gymryd chwe mis i'w cwblhau.

Sampl yr Astudiaethau Achos

- 2.6 I raddau helaeth, roedd Cyfnod II y gwerthusiad yn cynnwys cyfres gyntaf yr ymweliadau ag astudiaethau achos. Ein bwriad oedd ymweld â 40 ysgol a 10 lleoliad a ariennir nas cynhelir. Roedd y rhain i'w dewis drwy samplu haenedig ar hap - fe'u gosodwyd mewn haenau ar sail rhanbarthau consortia addysg Cymru a chyfnod gweithredu, yna fe'u

dewiswyd ar hap. Nodwyd isafswm o ysgolion cyfrwng Cymraeg cyn dewis, a byddai ysgolion cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael eu dewis ar hap pe na fyddem yn cyrraedd yr isafswm. Yn wreiddiol, ein bwriad oedd dewis lleoliadau a ariennir nas cynhelir ar sail eu bod yn lleoliadau 'bwydo' ar gyfer yr ysgolion astudiaeth achos (gweler Taylor *et al.* 2013 i gael mwy o fanylion).

- 2.7 Yn gyfan gwbl, gofynnwyd i 73 o ysgolion gymryd rhan. Cytunodd dau i gymryd rhan ond bu'n rhaid iddynt dynnu'n ôl o'r gwerthusiad gan eu bod ar fin cael arolygiadau gan Estyn. Roedd un ysgol yn cau yn ystod y flwyddyn. Gwrthododd 24 ysgol arall gymryd rhan. Gan amlaf, fe wnaeth yr ysgol nesaf a ddewiswyd ar hap gytuno i gymryd rhan. Yn anaml iawn, gwrthododd yr ail ysgol a ddewiswyd ar hap gymryd rhan hefyd, a olygodd fod yn rhaid dewis trydedd ysgol ar hap. Wrth reswm, roedd i hyn oblygiadau o safbwynt i ba raddau yr oedd yr ysgolion astudiaeth achos yn rhai a ddewiswyd 'ar hap', ond o ystyried mai ar lefel ranbarthol yr oedd y broses dewis ar hap yn digwydd, rydym yn hyderus mai ychydig iawn o duedd hunanddewisol sydd yn y sampl derfynol. Cyflwynir dadansoddiad disgrifiadol pellach o'r sampl derfynol mewn adroddiadau gwerthuso diweddarach (gweler Pennod 3).
- 2.8 Yn gyfan gwbl, cytunodd 41 o ysgolion a 10 lleoliad a ariennir nas cynhelir i fod yn astudiaethau achos. Caiff y sampl derfynol o ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir sy'n astudiaethau achos ei chrynhai yn Nhabl 3 a Thabl 4.
- 2.9 Roedd tair ysgol Dechrau Cynnar a dwy ysgol Beilot ymhlith yr ysgolion a wrthododd neu nad oeddent yn gallu cymryd rhan.

Tabl 3: Crynodeb o Astudiaethau Achos yn ôl Rhanbarth

| Sector a chyfrwng addysg | Gogledd Cymru ¹ | Consortia Rhanbarthol | | |
|---|----------------------------|--|-----------------------------|--------------------------------|
| | | De-orllewin a Chanolbarth Cymru ² | Canol De Cymru ³ | De-ddwyrain Cymru ⁴ |
| Ysgolion a gynhelir | 10 | 14 | 10 | 7 |
| Cyfrwng Cymraeg | 5 | 5 | 4 | 0 |
| Cyfrwng Saesneg* | 5 | 9 | 6 | 7 |
| Lleoliadau a Ariennir nas Cynhelir | 4 | 2 | 3 | 1 |
| Cyfrwng Cymraeg | 2 | 2 | 1 | 0 |
| Cyfrwng Saesneg | 2 | 0 | 2 | 1 |
| CYFANSWM | 14 | 16 | 12 | 9 |

1. Awdurdodau Lleol Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych

2. Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion.

3. Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg.

4. Awdurdodau Lleol Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen.

* Mae'n cynnwys un ysgol dwy ffrwd

Tabl 4: Crynodeb o Ysgolion Astudiaeth Achos yn ôl Cyfnod Gweithredu

| Cyfnod gweithredu | Gogledd Cymru ¹ | Consortia Rhanbarthol | | | Cyfanswm |
|-------------------|----------------------------|--|-----------------------------|--------------------------------|-----------|
| | | De-orllewin a Chanolbarth Cymru ² | Canol De Cymru ³ | De-ddwyrain Cymru ⁴ | |
| Peilot | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| Dechrau Cynnar | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| Cyflwyno Terfynol | 8 | 10 | 8 | 5 | 31 |
| CYFANSWM | 10 | 14 | 10 | 7 | 41 |

1. Awdurdodau Lleol Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych

2. Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion.

3. Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg.

4. Awdurdodau Lleol Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen.

2.10 Roedd bwriad bob amser y byddai dewis lleoliadau a ariennir nas cynhelir yn defnyddio samplu bwriadus – h.y. byddent yn cael eu dewis oherwydd ystyrir eu bod yn ‘bwydo’ un o’r ysgolion astudiaeth achos. Fodd bynnag, roedd gan fwyafrif yr ysgolion astudiaeth achos eu dosbarthiadau meithrin neu eu hunedau a gynhelir ynghlwm. Roedd hyn yn golygu mai dim ond saith o’r lleoliadau a ariennir nas cynhelir y gellid eu dewis ar y sail hon. Dewiswyd y tri lleoliad a ariennir nas cynhelir arall ar sail argymhellion ac i sicrhau dosbarthiad daearyddol addas.

Ymweliadau Astudiaethau Achos

2.11 Cynhaliwyd yr holl ymweliadau ag ysgolion a lleoliadau astudiaeth achos a ariennir nas cynhelir rhwng Ionawr a Gorffennaf 2013. Roedd ymweliad nodweddiadol ag ysgol yn cymryd deuddydd, er, dim ond diwrnod a barodd ymweliadau â rhai ysgolion llai. Roedd pob ymweliad ag ysgol yn cynnwys yr elfennau canlynol:²

- Arsylwi ar blant a staff yn y dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
- Arolwg o athrawon dosbarth
- Cyfweiliadau â Phenaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen
- Cyfweiliadau neu grwpiau ffocws â Chynorthwywyr Addysgu a Dysgu
- Arolwg o ddisgyblion Blwyddyn 2

2.12 Roedd ymweliadau â lleoliadau a ariennir nas cynhelir fel arfer yn cynnwys arsylwadau a chyfweiliad â rheolwr y lleoliad.

2.13 Caiff amserlen nodweddiadol ar gyfer ymweliad ag ysgol astudiaeth achos ei chyflwyno yn Nhabl 5. Mae hon yn dangos bod arsylwadau o’r

² Cynhaliwyd peilot o holl ddulliau’r ymweliadau ag astudiaethau achos mewn amrywiaeth o ysgolion cynradd ychwanegol yn ystod Tymor yr Hydref 2012 cyn dechrau’r ymweliadau astudiaeth achos.

rhan fwyaf o ddosbarthiadau (Meithrin, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) wedi'u cynnal mewn bore ac mewn prynhawn.

Tabl 5: Enghraifft o Ymweliad ag Ysgol Astudiaeth Achos

| Amser bras | Diwrnod Un | Diwrnod Dau |
|-------------------|---|--|
| 9.00-10.00 | Arsylwi – Derbyn | Arsylwi – Meithrin |
| 10.30-11.30 | Arsylwi – Blwyddyn 1 | Arsylwi – Blwyddyn 2 |
| 1.00-2.00 | Arsylwi – Derbyn | Arsylwi – Blwyddyn 2 |
| 2.30-3.30 | Arsylwi – Blwyddyn 1 | Arolwg o Ddisgyblion – Blwyddyn 2 |
| 3.30-4.00 | Cyfweliad – Pennaeth | Cyfweliad/Grŵp Ffocws – Cynorthwyr Addysgu a Dysgu |
| 4.00-4.30 | Cyfweliad – Ymarferwr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen | |

- 2.14 Dyluniwyd yr arsylwadau i roi cipolwg ar sut mae dosbarth/gweithgaredd yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddylunio a'i gyflwyno. Plant oedd yn cael eu harsylwi'n bennaf er mwyn (a) asesu'r addysgeg a'r gweithgareddau cwricwlaidd yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt, (b) mesur i ba raddau yr oeddent yn cymryd rhan yn y gweithgaredd neu'r gweithgareddau hynny, ac (c) i roi ryw syniad o'u lles yn ystod y gweithgaredd neu'r gweithgareddau hynny.
- 2.15 Yn ogystal ag arsylwi disgyblion, bu'r ymchwilyr yn arsylwi trefn yr ystafell ddosbarth a'r staff ym mhob ystafell ddosbarth er mwyn ystyried eu rôl a'u perthynas gyda'r disgyblion.
- 2.16 Gwnaed arsylwadau systematig ar ddisgyblion gan ddewis disgybl gwahanol ar hap bob dau funud.
- 2.17 Gwnaed mesur o'r graddau yr oedd pob disgybl a arsylwyd yn cymryd rhan a mesur o'i les gan ddefnyddio Graddfeydd Leuven (Laevers, 2005).

- 2.18 Roedd dau ymchwilydd yn casglu data arsylwi yn systematig. Er mwyn sicrhau bod dibynadwyedd rhwng y rhai oedd yn graddio, roedd y ddau ymchwilydd dan sylw yn rhan o ddatblygu'r dulliau a'r cynllun peilot ohonynt. Yna, bu'r ddau yn arsylwi'r plant a'r dosbarthiadau ar yr un pryd yn y pum ymweliad cyntaf ag ysgolion astudiaeth achos. Mae Tabl 6 yn crynhoi dibynadwyedd rhwng y rhai oedd yn graddio ar gyfer sawl elfen o'r arsylwadau ystafell ddosbarth hyn. Ym mhob elfen, mae'r sgorau dibynadwyedd rhwng y rhai oedd yn graddio yn awgrymu bod 'cytundeb sylweddol' rhwng y ddau ymchwilydd (Landis a Coch 1977).
- 2.19 Yn ogystal ag arsylwadau ystafell ddosbarth, cynhaliodd yr ymchwilyddwyr arolwg byr o athrawon dosbarth. Ategwyd hyn gan gyfweiliadau â'r pennaeth (neu'r pennaeth dros dro), ymarferwr arweiniol y Cyfnod Sylfaen (os oedd yn wahanol i'r pennaeth) a nifer o gynorthwywyr addysgu a dysgu.

Tabl 6: Crynodeb o ddibynadwyedd rhwng y rhai oedd yn graddio (IRR) ar gyfer Arsylwadau Ystafell Ddosbarth

| Elfen arsylwi ar yr ystafell ddosbarth | Math o raddio | Mesur IRR | Nifer yr arsylwadau | Canlyniad IRR |
|---|----------------------|-----------------------|----------------------------|----------------------|
| Meysydd Dysgu | Deuaidd | Cohen Kappa | 2,611 | 0.67 |
| Ymglymiad gan y Plant | Graddfa | Cydberthyniad Pearson | 373 | 0.71 |
| Lles y Plant | Graddfa | Cydberthyniad Pearson | 373 | 0.64 |
| Geiriau Allweddol y Cyfnod Sylfaen | Deuaidd | Cohen Kappa | 14,810 | 0.70 |
| Lefel Sesiwn | Graddfa | Cydberthyniad Pearson | 426 | 0.81 |

- 2.20 Yn olaf, ym mhob ymweliad ag ysgol astudiaeth achos, roedd disgyblion Blwyddyn 2 (6/7 oed) yn cwblhau arolwg eu hunain. Lluniwyd yr arolwg hwn fel ei fod yn debyg i arolwg Astudiaeth Carfan y Mileniwm ar gyfer plant saith oed. Fel arfer, roedd plant yn cwblhau'r

arolygon hyn mewn grwpiau o bump gyda chymorth yr ymchwilydd. Weithiau, roedd cynorthwydd addysgu a dysgu yn bresennol hefyd.

2.21 Mae Tabl 7 yn rhoi crynodeb o faint terfynol y sampl ar gyfer pob elfen o Gyfnod I a Chyfnod II dyluniad y gwerthusiad.

Tabl 7: Maint Terfynol y Sampl yng Nghyfnod I a Chyfnod II

| Ymatebwyr, Cyfranogwyr ac Arsylwadau | Nifer yn y sampl* |
|---|--------------------------|
| <i>Cyfnod I</i> | |
| Arolwg Cenedlaethol o Benaethiaid | 361 |
| Arolwg Cenedlaethol o Ddarparwyr a Ariennir nas Cynhelir | 243 |
| Cyfweliadau gydag Ymgynghorwyr Cyfnod Sylfaen | 19 |
| Awdurdodau Lleol | |
| Cyfweliadau gyda Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant | 18 |
| Awdurdodau Lleol | |
| Cyfweliadau â Sefydliadau Ymbarél Lleoliadau Nas Cynhelir | 4 |
| <i>Cyfnod II</i> | |
| Arsylwadau Plant | 3,343 |
| Arsylwadau Dosbarth | 131 |
| Arsylwadau Sesiynau | 239 |
| Arsylwadau Ymarferwyr | 824 |
| Arolwg o Ddisgyblion Blwyddyn 2 | 671 |
| Cyfweliadau gyda Phenathiaid | 41 |
| Cyfweliadau gydag Athrawon | 118 |
| Cyfweliadau gydag Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen | 37 |
| Cyfweliadau gydag Arweinwyr Lleoliadau Nas Cynhelir | 10 |
| Cyfweliadau gyda Chynorthwywyr Addysgu a Dysgu | 14 |
| Lleoliadau Nas Cynhelir | |
| Cyfweliadau gyda Chynorthwywyr Addysgu a Dysgu | 121 |
| Ysgolion | |

* Nid yw hwn yn cynnwys unrhyw arsylwadau na chyfranogwyr sy'n deillio o gynllun peilot y dulliau casglu data

3 Camau Nesaf 2013/14

3.1 Rhennir y rhaglen waith ar gyfer y gwerthusiad yn ystod 2013/14 yn dair rhan:

- i. Cyfnod III Dyluniad y Gwerthusiad
- ii. Fframwaith Dadansoddi
- iii. Adrodd a Chyfathrebu

Cyfnod III Dyluniad y Gwerthusiad

3.2 Yn ystod 2013/14, bydd tîm y gwerthusiad yn cwblhau Cyfnod III dyluniad y gwerthusiad. Bydd hyn yn cynnwys casglu data pellach o'r ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir sy'n astudiaethau achos.

3.3 Bydd prif elfennau gwaith maes Cyfnod III fel a ganlyn:

- Arolwg o rieni/gofalwyr;
- Cyfweiliadau ag athrawon Blwyddyn 3; a
- Gweithgareddau gyda phlant.

3.4 Trafodir pob un o'r tair elfen hyn isod. Bydd y dulliau ymchwil ar gyfer pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datblygu a'u profi yn ystod Tymor yr Hydref 2013. Yn ogystal, caiff pob elfen ei chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

Cyfnod III: Arolwg o Rieni/Gofalwyr

3.5 Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o holi rhieni/gofalwyr am eu barn ar y Cyfnod Sylfaen yw drwy roi arolwg dwyieithog i blant yn y Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 (ym mhob un o'n 41 ysgol astudiaeth achos), er mwyn iddynt fynd ag ef adref i'w rhieni/gofalwyr ei lenwi a'i ddychwelyd drwy'r post. Penderfynom aros tan flwyddyn olaf y gwerthusiad fel y byddai cwestiynau'n ymwneud â phontio gan y plant o'r Cyfnod Sylfaen i Flynyddoedd 3 a 4 yn berthnasol i'r ysgolion a fu'n

rhan o broses cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn genedlaethol yn ogystal ag ysgolion y Cyfnod Dechrau Cynnar a'r Cyfnod Peilot.

- 3.6 Nod yr arolwg o rieni/gofalwyr yw casglu amgyffredion rhieni a gofalwyr am y Cyfnod Sylfaen, mewn egwyddor ac yn ymarferol.
- 3.7 Caiff pob un o'r 41 ysgol astudiaeth achos (a'r 10 lleoliad nas cynhelir sy'n astudiaeth achos) eu gwahodd i anfon arolygon adref i rieni/gofalwyr drwy gyfrwng disgyblion y Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. Byddwn yn talu holl gostau anfon copïau o'r arolwg wedi'u hargraffu i'r ysgolion i'w dosbarthu i rieni/gofalwyr (gydag amlenni rhagdal parod ar gyfer dychwelyd yr holiaduron). Yna, gall rhieni/gofalwyr naill ai ddychwelyd yr holiadur wedi'i llenwi at yr ysgol neu'n uniongyrchol at WISERD (gan ddefnyddio'r amlen ragdal barod). Cynigir gwobr raffl fel cymhelliad ar gyfer llenwi'r arolwg.
- 3.8 Wrth ddadansoddi'r arolwg o rieni/gofalwyr, byddwn yn bwrw golwg ar y canlynol:
- Faint y mae rhieni/gofalwyr yn ei wybod am y Cyfnod Sylfaen (fel polisi addysg), beth oedd eu ffynonellau gwybodaeth a sut mae hyn yn amrywio ar draws ysgolion a lleoliadau?
 - I ba raddau y mae rhieni/gofalwyr yn cytuno ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, ac a yw hyn yn amrywio yn ôl y ffordd o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion a'r lleoliadau sy'n astudiaethau achos?
 - Beth yw barn rhieni/gofalwyr am brofiadau eu plant eu hunain sydd wedi bod drwy'r Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys pontio i CA2), a yw hyn yn amrywio ar draws y grwpiau blwyddyn ac a yw'n dibynnu ar sut y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu yn yr ysgolion a'r lleoliadau astudiaethau achos?
- 3.9 Byddwn yn gallu dadansoddi'r cwestiynau uchod yng nghyd-destun y canlynol: a yw eu plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, eu

defnydd o iaith, ac adroddiadau goddrychol am unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

3.10 Os bydd rhiant/gofalwr yn dychwelyd arolwg wedi'i lenwi (naill ai at yr ysgol neu'n uniongyrchol at dîm y gwerthusiad) byddwn yn rhagdybio'u bod yn cytuno i gymryd rhan, a chaiff pawb sy'n cyfrannu wybod y gallant dynnu eu data yn ôl unrhyw bryd. Pan fyddwn yn llunio'r arolwg yn derfynol, byddwn yn sicrhau bod yr iaith mor hawdd â phosibl. Fodd bynnag, gwyddom y bydd hyn yn anodd i gyfran fechan o rieni/gofalwyr (e.e. y rhai sydd ag anawsterau darllen/ysgrifennu Cymraeg/Saesneg). Felly, byddwn yn cynnwys ein manylion cyswllt ynghyd â nodyn rhag ofn y bydd yn well gan rieni/gofalwyr rannu eu barn am y Cyfnod Sylfaen dros y ffôn. Hefyd, byddwn yn gofyn i bob ysgol/lleoliad gyfeirio rhieni/gofalwyr atom os bydd hyn yn codi. Ni fydd angen i'r rhieni/gofalwyr roi eu henw ar yr arolwg oni bai eu bod yn dymuno cymryd rhan yn y raffl fel cymhelliad ar gyfer llenwi'r arolwg. Ni chaiff y wybodaeth hon ei chysylltu â'r data a ddarparant yn yr arolwg ac ni chaiff ei chynnwys mewn unrhyw gyhoeddiadau sy'n deillio o'r prosiect hwn.

3.11 Bydd yr holiadur yn cael ei gynnal yn ystod Tymor yr Hydref, 2013.

Cyfnod III: Cyfweiliadau gydag Athrawon Blwyddyn 3

3.12 Yn yr un modd â'r arolwg o rieni/gofalwyr, penderfynom aros tan flwyddyn olaf y gwerthusiad i gasglu barn ac amgyffredion athrawon Blwyddyn 3 (CA2), oherwydd bydd hyn yn gwneud y mwyaf o'r profiad a gafodd athrawon Blwyddyn 3 o dderbyn a gweithio gyda phlant sydd wedi bod drwy'r Cyfnod Sylfaen.

3.13 Prif nod y cyfweiliadau gydag athrawon Blwyddyn 3 fydd casglu amgyffredion athrawon Blwyddyn 3 am y Cyfnod Sylfaen, mewn egwyddor ac yn ymarferol, gan ganolbwyntio ar y pontio gan blant o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 (CA2).

- 3.14 Bydd y cyfweiliadau dros y ffôn wedi'u seilio ar chwe phrif thema yn ymwneud â barn athrawon Blwyddyn 3 am y Cyfnod Sylfaen a sut mae'n cysylltu â CA2. Mae'r cwestiynau wedi'u hysgogi o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o Gyfnodau I a II, y mae angen canolbwyntio ymhellach arnynt.
- 3.15 Byddwn yn cysylltu â phob un o'n hysgolion astudiaeth achos i drefnu siarad â'r athro Blwyddyn 3 a dderbyniodd carfan plant Blwyddyn 2 a arsylwyd gennym yng Nghyfnod II. Yna, byddwn yn cynnal cyfweiliad llawn dros y ffôn gydag oddeutu 20 o athrawon Blwyddyn 3 sydd wedi bod yn addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 am y cyfnod hiraf (h.y. y rhai hynny sydd â'r gallu gorau i gymharu carfanau newydd plant y Cyfnod Sylfaen â charfanau blaenorol plant Cyfnod Allweddol 1).
- 3.16 Wrth ddadansoddi cyfweiliadau ag athrawon Blwyddyn 3, ein bwriad fydd archwilio'r canlynol:
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen – a sut mae hyn yn amrywio o ysgol i ysgol.
 - Pa fath o hyfforddiant (os o gwbl) y mae athrawon Blwyddyn 3 wedi'i gael mewn perthynas â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.
 - A yw athrawon Blwyddyn 3 o'r farn bod y plant sy'n dod i fyny o'r Cyfnod Sylfaen wedi newid mewn unrhyw ffordd (o gymharu â phlant CA1), yn ogystal â bwrw golwg ar sut maen nhw fel athrawon wedi newid eu haddysgeg mewn unrhyw ffordd.
 - Sut y rhoddwyd pontio o'r Cyfnod Sylfaen i CA2 ar waith mewn ysgolion penodol ac a yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar adnoddau a lleoliadau ystafelloedd dosbarth.
 - Pa effaith y gallai'r Cyfnod Sylfaen fod yn ei chael ar ddeilliannau.
- 3.17 Byddwn yn gallu bwrw golwg ar y canlyniadau hyn yng nghyd-destun data arsylwi Cyfnod II, yn ogystal â chyfweiliadau a gynhelir gyda staff y Cyfnod Sylfaen a phenaethiaid mewn ysgolion astudiaeth achos.

- 3.18 Ystyriwn fod gennym gydsyniad os bydd staff yn cytuno i gymryd rhan mewn cyfweiliadau dros y ffôn. Hefyd, byddwn yn gofyn am gydsyniad i recordio'r cyfweiliadau ffôn a byddwn yn esbonio hawliau cyffredin y cyfranwyr (e.e. y gallu i dynnu data yn ôl unrhyw bryd).
- 3.19 Mae'r cyfweiliadau ffôn yn cael eu trefnu ar gyfer Tymor yr Hydref, 2013.

Cyfnod III: Gweithgareddau gyda Phlant

- 3.20 Er ein bod wedi cynnal Arolwg o Ddisgyblion Blwyddyn 2 (a nifer fawr o arsylwadau ar blant yn eu dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen hefyd) yng Nghyfnod II, rydym o'r farn y byddai'r gwerthusiad yn elwa ar waith mwy uniongyrchol (a chyfranogol) gyda phlant.
- 3.21 Prif nod y rhan hon o'r gwerthusiad yw cynnal cyfres o Grwpiau Ffocws Blwyddyn 2 a Theithiau Ystafell Ddosbarth Blwyddyn 1 yn y lle cyntaf fel bod barn a profiadau plant o'r Cyfnod Sylfaen yn gallu dylanwadu'n well ar ein gwerthusiad. Ac, yn ail, i asesu a yw plant Blwyddyn 2 o ysgolion sydd, yn ôl pob golwg, wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn, yn meddu ar sgiliau meddwl/datrys problemau gwell mewn grŵp na phlant mewn ysgolion nad ydynt, yn ôl pob golwg, wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaeth iawn.
- 3.22 Mae dau reswm dros y rhesymeg hon. Yn gyntaf, awgrymodd yr Arolwg o Ddisgyblion Blwyddyn 2 a gynhaliwyd yng Nghyfnod II y byddai'n werth siarad â phlant yn fanylach am eu profiadau yn yr ysgol, a sut gallai'r Cyfnod Sylfaen effeithio arnynt. Yn ail, arweiniodd y cyfyngiadau o ran gwerthuso effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau addysgol atom i ystyried asesu effaith gwahanol addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar sgiliau meddwl a datrys problemau mewn grŵp.

- 3.23 Cynigir y byddwn yn cynnal y gwaith uniongyrchol hwn gyda phlant mewn saith o'r 41 ysgol astudiaeth achos: tair ysgol Cyfnod Sylfaen 'uchel', tair ysgol Cyfnod Sylfaen 'isel' ac un ysgol cyfrwng Cymraeg³.
- 3.24 Bydd yr elfen hon o'r gwerthusiad yn caniatáu i ni archwilio a yw math o addysgeg y Cyfnod Sylfaen y mae plant yn cael profiad ohoni yn yr ysgol, a graddfa'r addysgeg hon, yn effeithio ar ganfyddiadau plant am y Cyfnod Sylfaen, a'u sgiliau datrys problemau mewn grŵp. Hynny yw, rydym yn bwriadu archwilio:
- a yw plant o ddsbarthiadau Cyfnod Sylfaen 'uchel' ac 'isel' yn cael profiad o ddysgu ac yn siarad am eu dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac
 - a yw plant o ddsbarthiadau Cyfnod Sylfaen 'uchel' ac 'isel' wedi datblygu gwahanol lefelau o sgiliau meddwl a/neu ddatrys problemau mewn grŵp.
- 3.25 Cyn y gweithgareddau hyn, bydd yr ymchwilyr yn treulio ychydig amser yn yr ystafell ddsbarth cyn dechrau ar y gweithgareddau, fel y gall y plant ddod i arfer â phwy yw'r ymchwilyr a pham y maent yno.
- 3.26 Bydd ar bob un o'r saith ysgol angen o leiaf ugain o blant ym Mlwyddyn 1 ac o leiaf ugain o Blant ym Mlwyddyn 2 i sicrhau y gallwn gael caniatâd gan o leiaf chwech o blant Blwyddyn 1 a chwech o blant Blwyddyn 2 (a chaniatâd eu rhieni/gofalwyr). Hefyd, bwriadwn greu fideo o weithgareddau'r plant, felly bydd angen i rieni/gofalwyr roi eu cydsyniad gwybodus, wedi'i lofnodi, i ni er mwyn i'w plant gymryd rhan (h.y. cydsyniad i gyfrannu). Hefyd, gofynnir i rieni/gofalwyr roi caniatâd

³ Bydd ysgolion Cyfnod Sylfaen 'Uchel' ac 'Isel' wedi'u seilio ar ddadansoddiad o ddata arsylwi o Gyfnod II dyluniad y gwerthusiad. Defnyddir hwn i nodi'r ysgolion sydd wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn, yn ôl pob golwg (fel y'i bwriadwyd yn wreiddiol) – yr ysgolion 'uchel' – a'r ysgolion nad ydynt, yn ôl pob golwg, wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaeth iawn – yr ysgolion 'isel'. Bydd y dewis o un ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'i seilio ar gyfran uchel o blant sy'n dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, gyda chylch gwaith penodol i edrych ar effaith y Cyfnod Sylfaen yn y cyd-destun penodol hwn. Yn ogystal, dewisir ysgolion ar sail eu nodweddion derbyn – e.e. gyda gwahanol gyfrannau o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

i'r tîm ymchwil ddefnyddio'r fideos sydd wedi'u recordio er mwyn lledaenu'r ymchwil.

- 3.27 I gynorthwyo â'r broses hon, byddwn yn gofyn i'r saith ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhan hon o'n hymchwil enwi aelod staff (e.e. athro neu gynorthwydd addysgu) i helpu gofyn am gydsyniad gan o leiaf wyth rhiant/gofalwr o Flwyddyn 1 ac o leiaf wyth o Flwyddyn 2 pan fyddant yn dod â'u plant i'r ysgol neu'n eu casglu o'r ysgol. Byddwn yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol a thafleuni cydsynio i staff yr ysgol. Yna, byddant yn gallu holi'r rhieni/gofalwyr wythnos neu bythefnos cyn ein hymweliad i sicrhau bod digon o ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi.
- 3.28 O blith y plant hynny y mae eu rhieni/gofalwyr wedi llofnodi ffurflen gydsynio, ein bwriad yw dewis tri bachgen a thair merch sy'n barod i gymryd rhan o Flwyddyn 1, a thri bachgen a thair merch sy'n barod i gymryd rhan o Flwyddyn 2, 'ar hap'⁴. Bydd yr ymchwilydd yn rhoi esboniad clir i'r plant hyn o'r gweithgaredd a'r rheswm dros ffilmio, ac yn rhoi cyfle i bob un o'r plant wrthod os nad ydynt yn dymuno cymryd rhan. Yn ddelfrydol, bydd yr un grŵp o blant o Flwyddyn 2 yn cymryd rhan yn Nhrafodaeth y Grŵp Ffocws a'r Dasg Datrys Problem mewn Grŵp.
- 3.29 Ein nod yw cynnal yr holl waith uniongyrchol gyda phlant rhwng Ionawr a Chwefror 2014. Felly, ein bwriad yw llunio'r gweithgareddau grŵp a'r gweithdrefnau'n derfynol erbyn Tachwedd 2013 a dechrau recriwtio ein his-sampl o saith ysgol a threfnu cael cydsyniad rheini ym mis Rhagfyr 2013.

⁴ Y rheswm dros gael cydsyniad rhieni ar gyfer wyth yn hytrach na chwech o blant ym Flwyddyn 1 ac ym Flwyddyn 2 yw caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd ychydig o blant yn gwrthod cymryd rhan.

Cyfnod III: Grwpiau Ffocws Blwyddyn 2

- 3.30 Prif nod y grwpiau ffocws hyn fydd dysgu mwy am ganfyddiadau plant Blwyddyn 2 am eu dysgu a'r ysgol, a sut mae'r ffordd o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith sy'n cael ei phrofi gan y plant yn eu hystafell ddosbarth yn dylanwadu ar eu hamgyffredion. Hefyd, byddwn yn gallu gwneud gwaith dilynol ar ganfyddiadau allweddol Arolwg Blwyddyn 2 a gynhaliwyd yn ystod Cyfnod II.
- 3.31 Mae dadansoddiad rhagarweiniol o rywfaint o ddata'r Arolwg Blwyddyn 2 o Gyfnod II yn awgrymu ei bod hi'n bosibl bod y ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei roi ar waith yn eu dosbarth (e.e. mwy neu lai o waith wedi'i ysgogi gan yr oedolyn/plentyn ac ati) yn dylanwadu ar agweddau plant tuag at elfennau dysgu penodol. Trwy grwpiau ffocws Blwyddyn 2, bydd modd cynnal trafodaeth ansoddol fanylach gyda'r garfan nesaf o blant Blwyddyn 2 ynghylch a yw addysgeg ac amgylchedd eu hystafell ddosbarth yn dylanwadu ar eu profiad o'r ysgol a dysgu a'u hagweddau tuag at y rhain. Byddwn wedi arsylwi ar y plant hyn yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad, pan roeddent ym Mlwyddyn 1. Felly, byddwn yn gwybod pa fath o addysgeg roeddent yn ei phrofi bryd hynny, a byddwn hefyd yn siarad â'u hathro Blwyddyn 2 i gael gwybod pa fath o addysgeg maent yn ei phrofi yn awr.
- 3.32 Wrth ddadansoddi data o drafodaethau ansoddol y grwpiau ffocws hyn, byddwn yn chwilio am themâu cyffredin sy'n dweud mwy wrthym am amgyffrediad plant Blwyddyn 2 am y canlynol, a sut gallai'r ffordd o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn eu hysgol ddylanwadu ar y ffactorau hyn:
- Mwynhau'r ysgol, darllen, ysgrifennu, gwaith rhif a dysgu yn yr awyr agored;
 - Hyder, ymddygiad, perthynas â chyfoedion, lles ac annibyniaeth; a
 - Rôl yr athro ac ymarferwyr ychwanegol yn y dosbarth

Cyfnod III: Teithiau Ystafell Ddosbarth Blwyddyn 1

- 3.33 Prif nod y teithiau hyn o amgylch ystafelloedd dosbarth fydd archwilio sut gall gwahanol drefn yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen effeithio ar sut mae plant Blwyddyn 1 yn amgyffred eu hamgylchedd dysgu a'i ddisgrifio.
- 3.34 Datgelodd ein gwaith maes yng Nghyfnod II gryn amrywiaeth yn y ffordd yr oedd ysgolion ac athrawon yn trefnu eu hystafelloedd dosbarth a'u hamgylcheddau dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Trwy gymryd rhan mewn teithiau o amgylch ystafelloedd dosbarth, byddwn yn gallu dysgu mwy am sut mae plant yn amgyffred eu hamgylchedd dysgu, a sut y gallai trefn yr amgylchedd a'r ffordd y mae'r athro ac ymarferwyr ychwanegol yn ei ddefnyddio effeithio ar yr amgyffrediad hwn.
- 3.35 At y diben hwn, dewisir un grŵp o chwech o blant Blwyddyn 1 o bob un o'r saith ysgol sy'n cymryd rhan. Bydd yr ymchwilyr yn esbonio i'r plant hyn eu bod am i'r plant fynd â nhw ar daith o amgylch eu hystafell ddosbarth a'r amgylchedd dysgu awyr agored, gan ddangos beth maent yn ei wneud yn y gofod hwn a pham. Hefyd, bydd yr ymchwilyr yn esbonio eu bod yn dymuno gwneud fideo o'r daith o amgylch yr ystafell ddosbarth ac yn gofyn am eu caniatâd ar gyfer hyn.
- 3.36 Bydd yr ymchwilyr yn gadael i'r plant arwain y daith o amgylch yr ystafell ddosbarth (gan gyfyngu'r daith i 15 munud), ond bydd cyfres o gwestiynau cyffredin (er cysondeb) yn cael eu defnyddio pan fo angen:
- 'Felly, beth yw'r peth cyntaf yr hoffech chi ddangos i mi yn eich ystafell ddosbarth? Beth ydych chi'n ei wneud yma? I pa bwrpas? Beth ydych chi'n ei ddysgu yma?'

- ‘A beth yw’r peth nesaf yr hoffech chi ddangos i mi yn eich ystafell ddosbarth (ailadrodd hwn...)? Beth ydych chi’n ei wneud yma? I pa bwrpas?’
- ‘Beth mae eich athro’n gwneud fel arfer? Oes unrhyw oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth?’

3.37 Pan fyddwn yn dadansoddi’r data ansoddol o’r daith o amgylch yr ystafell ddosbarth (fideo a nodiadau gwaith maes), byddwn yn ystyried a oes unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau ysgol Cyfnod Sylfaen ‘uchel’ ac ‘isel’ o ran sut gysyniad sydd gan y plant o’u hamgylcheddau dysgu (e.e. defnyddio geiriau allweddol fel ‘gwaith’ a ‘chwarae’), sut mae’r plant yn disgrifio rôl yr athro ac ymarferwyr ychwanegol, pa mor frwdfrydig yw’r plant wrth ddangos gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth, a pha mor dda y mae’r grŵp yn cydweithio i rannu syniadau a chynnwys ei gilydd yn y daith. Er enghraifft:

- Pa mor hyderus oedd y plant wrth weithio gyda dieithryn a chychwyn y daith (heb gymorth athro)?
- Sut oedd y grŵp yn cydweithio? A oeddent yn gwranddo ar eu safbwyntiau ei gilydd ac yn cydweithio fel grŵp?
- Pa ardaloedd o’r ystafelloedd ddosbarth/gweithgareddau a ymddangosodd fwyaf yn nhrefnadaeth pob grŵp?
- Sut gwnaeth pob grŵp lunio cysyniad o’r amrywiol weithgareddau a meysydd darpariaeth y dewisont siarad amdanynt, a sut gwnaethant ddisgrifio’r gweithgareddau a’r meysydd darpariaeth hyn?
- A oedd gwahaniaethau o ran sut siaradodd y grwpiau am eu manau dan do ac yn yr awyr agored?
- Pa feysydd dysgu oedd y grwpiau yn eu hoffi/casáu fwyaf?

Cyfnod III: Asesiad o Fedrau Meddwl a Datrys Problemau mewn Grŵp ym Blwyddyn 2

- 3.38 Prif nod yr elfen hon o'r gwerthusiad yw arsylwi ar y plant yn ymgymryd â thair tasg a luniwyd i ddatgelu a yw'n ymddangos bod y ffordd o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn yr ystafell ddosbarth yn cael unrhyw effaith ar sgiliau meddwl a chreadigrwydd plant, a'u sgiliau datrys problemau mewn grŵp.
- 3.39 Gellid dadlau bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i ddylunio'n rhannol i helpu plant i ddatblygu sgiliau meddwl a datrys problemau cyffredinol (Maynard *et al.* 2013). Fodd bynnag, ni chaiff y meysydd datblygu gwybyddol hyn eu hasesu'n uniongyrchol yn Neilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen. Felly, nod y tair tasg hyn yw archwilio a yw plant Blwyddyn 2 yn ysgolion y Cyfnod Sylfaen uwch yn arddangos sgiliau meddwl, creadigrwydd a datrys problemau mewn grŵp ar lefel 'uwch', o gymharu â phlant Blwyddyn 2 o ysgolion Cyfnod Sylfaen 'isel'.
- 3.40 Yn ddelfrydol, bydd yr un chwe phlentyn o bob un o'r saith ysgol sy'n cymryd rhan yn nhrafodaethau grwpiau ffocws Blwyddyn 2 hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau datrys problemau hyn mewn grŵp. Dewisir man cyfforddus a chyfarwydd i blant Blwyddyn 2 yn yr ysgol ar gyfer cynnal y gweithgareddau datrys problemau mewn grŵp. Ar ôl i'r ymchwilyr gyflwyno'u hunain, byddant yn esbonio pwrpas y gweithgareddau hyn. Hefyd, bydd yr ymchwilyr yn esbonio'u bod yn dymuno gwneud fideo o'r gweithgareddau ac yn gofyn i'r plant am eu cydsyniad.
- 3.41 Dewiswyd yr holl weithgareddau hyn i annog y plant i drafod eu syniadau gyda'i gilydd ar lafar, yn ogystal â chofnodi syniadau i'w hadolygu pan ddaw'r cyfnod amser i ben. Gwneir fideo o'r holl dasgau, a chaiff y data ansoddol ei ddadansoddi er mwyn amlygu themâu perthnasol yn ymwneud â sut mae plant yn trafod syniadau, pa fath o iaith meddwl a ddefnyddiant a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd

mewn grŵp. Bydd pob tasg yn cael ei hamseru, ac ar sail ymchwil flaenorol sy'n defnyddio'r asesiadau hyn, sicrheir data ansoddol ar gyfer ymatebion y plant a chaiff y data hwn ei ddadansoddi gan ddefnyddio dulliau mesur safonol i werthuso'r deilliannau a ddymunant. Yn gyffredinol, byddwn yn edrych i weld a oes gwahaniaethau cyson ymhlith plant mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen 'uchel' ac 'isel' o safbwynt medrau creadigrwydd plant, eu medrau meddwl a'u medrau datrys problemau mewn grŵp.

Fframwaith Dadansoddi

- 3.42 Rhan bwysig arall o weithgareddau'r gwerthusiad yn ystod 2013/14 fydd cwblhau'r dadansoddiad sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol. O ystyried natur gymhleth y Cyfnod Sylfaen a'r gwerthusiad, mabwysiadwyd ymagwedd dulliau cymysg (Gorard a Taylor 2004). Felly, mae dyluniad y gwerthusiad yn cynnwys sawl nodwedd, a bydd wedi casglu ystod o ddata meintiol ac ansoddol. Felly, bydd y dadansoddi sy'n ofynnol yn defnyddio ystod o ffynonellau a mathau data a gasglwyd yn ystod Cyfnodau I, II a III y gwerthusiad.
- 3.43 I'r perwyl hwnnw, mae tîm y gwerthusiad wedi nodi nifer o themâu dadansoddol a phapurau gwaith dadansoddol cysylltiedig i'w datblygu. Defnyddir y llinell amser a'r fframwaith dadansoddi sy'n deillio o hynny (Tabl 8) i arwain y dadansoddiad a chynnig y sylfaen ar gyfer yr adroddiadau gwerthuso terfynol fydd yn cael eu cyhoeddi.

Tabl 8: Fframwaith Dadansoddi'r Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen

| Thema Ddadansoddol | Papur Gwaith Dadansoddol |
|---------------------------|--|
| A. Gweithredu | 1. Rheolaeth ac arweinyddiaeth 2. Hyfforddiant, cymorth ac arweiniad 3. Staffio 4. Plant a theuluoedd |
| B. Ymarfer | 5. Addysgeg a dealltwriaeth 6. Yr amgylchedd (dan do/awyr agored) 7. Y Gymraeg 8. Llythrennedd a rhifedd 9. Enghreifftiau o ymarfer y CS |
| C. Effaith | 10. Effeithiau sydd wedi'u hadrodd 11. Lles ac ymglymiad plant 12. Pontio ac asesu 13. Datblygiad y CS yn y dyfodol |
| CH. Deilliannau | 14. Adroddiad NPD 1 (Cyfnod I) 15. Adroddiad NPD 2 (Cyfnod II) 16. Adroddiad NPD 3 (Cyfnod III) |
| D. Technegol | 17. Methodoleg |

Papur gwaith 1: Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

3.44 Bydd y papur gwaith hwn yn archwilio rôl rheolaeth ac arweinyddiaeth o ran cyflwyno a sefydlu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys rôl Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Ymgynghorwyr y Cyfnod Sylfaen, penaethiaid, rheolwyr canolfan a staff addysgu uwch sy'n rhan o weithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion. Bydd ganddo ddiddordeb arbennig yn y canlynol:

- Sut beth oedd profiad cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer y grwpiau amrywiol hyn o ymarferwyr;
- Eu hagweddau tuag at weithredu'r Cyfnod Sylfaen;
- Eu disgwyliadau ynghylch y Cyfnod Sylfaen yn ystod camau cynnar ei weithredu;

- Pa newidiadau, os o gwbl, a fu yn nhrefniadaeth a rheolaeth yr ysgolion;
- Pa berthnasoedd sydd rhwng agweddau cychwynnol at y Cyfnod Sylfaen ac ymarfer dilynol y Cyfnod Sylfaen, os o gwbl; ac
- Y rhwystrau a'r heriau oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd.

3.45 Yn ogystal â mapio rolau a chyfraniadau'r gwahanol randdeiliaid hyn wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen, bydd yn ystyried hefyd pa batrymau, os o gwbl, sydd i'w gweld wrth ei weithredu, yn ôl:

- Daearyddiaeth (trefol/gwledig, awdurdod lleol/consortia rhanbarthol)
- Y math o ysgol (cyfrwng Cymraeg/Saesneg, maint, cyfansoddiad niferoedd)
- Cyfnod cyflwyno (Peilot, Dechrau Cynnar, Cyflwyno Terfynol)
- Nodweddion staff (profiad y Pennaeth)

Papur gwaith 2: Hyfforddiant, Cymorth ac Arweiniad

3.46 Bydd y papur gwaith hwn yn canolbwyntio ar yr hyfforddiant, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir ac sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr. Yn benodol, bydd ganddo ddiddordeb yn y ffordd y mae unrhyw ddeunyddiau at y dibenion hyn wedi'u derbyn, eu dehongli a'u defnyddio. Bydd ffocws allweddol hefyd ar rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen a'i ymarfer.

Papur gwaith 3: Staffio

3.47 Mae'r papur gwaith hwn yn ymwneud yn bennaf â materion yn gysylltiedig â staffio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Nodwedd allweddol ar y Cyfnod Sylfaen yw'r adnodd ychwanegol i wella cymhareb yr oedolion a'r disgyblion ym mlynnyddoedd y Cyfnod Sylfaen. Bydd y papur gwaith

hwn yn ymdrechu i fapio cymarebau oedolion a disgyblion o'r arolygon cenedlaethol a'r ymweliadau ag ysgolion astudiaeth achos. Yna, bydd yn ystyried pa berthynas sydd gan hyn ag ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn ystafelloedd dosbarth yr astudiaethau achos, os o gwbl.

3.48 Hefyd, lle y bo'n bosibl, bydd y papur gwaith hwn yn ystyried effaith cymwysterau a phrofiad addysgu'r holl staff ar ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Yn ogystal, bydd yn archwilio recriwtio, rôl ac agweddau Cynorthwywyr Addysgu a Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Felly, dyma fydd themâu allweddol y Papur Gwaith hwn:

- Mapio cymarebau'r oedolion a disgyblion ar draws y sector;
- Mapio cymwysterau a phrofiad addysgu'r holl staff;
- Y defnydd o staff wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (gweithgareddau/cyfrifoldebau gan staff);
- Y defnydd o fyfyrddod, arsylwi a rhyngweithio cyson (fel y bo'n gysylltiedig â chymwysterau a phrofiad);
- Recriwtio Athrawon Ychwanegol;
- Rôl Athrawon Ychwanegol;
- Archwilio materion cyllido yn gysylltiedig â staffio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; a
- Gwerthoedd proffesiynol ymhlith ymarferwyr.

3.49 O'r gwaith mapio ar gymarebau oedolion a disgyblion a chymwysterau a phrofiad addysgu staff y dosbarth, bydd hefyd yn ystyried y patrymau sydd i'w gweld, os o gwbl, wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen, yn ôl:

- Daearyddiaeth (trefol/gwledig, awdurdod lleol/consortia rhanbarthol);
- Categori'r ysgol (cyfrwng Cymraeg/Saesneg, maint, cyfansoddiad niferoedd)
- Cyfnod cyflwyno (Peilot, Dechrau Cynnar, Cyflwyno Terfynol); a
- Theipoleg ymarfer (gweler y Papur Gwaith ar Addysgeg a Dealltwriaeth).

Papur gwaith 4: Plant a Theuluoedd

- 3.50 Yn unol â'r ymagwedd hawliau plant sy'n sylfaen i'r Cyfnod Sylfaen, mae'r papur gwaith hwn yn ymwneud yn bennaf ag amgyffredion plant a'u rhieni/teuluoedd am y Cyfnod Sylfaen ac i ba raddau yr ystyrir bod 'lleisiau' plant a rhieni yn bwysig i'r ffordd y mae ymarferwyr yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Felly, mae'n ymgorffori, er enghraifft, barn plant am y Cyfnod Sylfaen ac i ba raddau y mae ysgolion/athrawon yn ystyried diddordebau a syniadau plant wrth gynllunio gweithgareddau. Hefyd, bydd yn archwilio'r berthynas â rhieni, teuluoedd a chymunedau yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen.
- 3.51 Mae hwn yn wahanol i'r papur gwaith ar gyfraniad a lles plant sy'n ymwneud yn fwy ag effaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfraniad plant at weithgareddau dysgu a'u lles. Fodd bynnag, disgwyliwn y bydd perthynas agos rhwng y rhain a bydd yn bwysig gweld i ba raddau y mae dulliau a gychwynnir gan blant mewn ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â lefelau cyfraniad, lles gwrthrychol a goddrychol ac agweddau at ddysgu.
- 3.52 Telir sylw arbennig i'r materion sydd wedi'u hamlygu yn y papur gwaith hwn yn ystod Cyfnod III y gwerthusiad. Serch hynny, mae'n bosibl o hyd dechrau nodi i ba raddau yr ystyriwyd barn plant a rhieni wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion o'r arolwg cenedlaethol a'r ymweliadau ag astudiaethau achos.

Papur gwaith 5: Addysgeg a Dealltwriaeth

- 3.53 Mae'r papur gwaith hwn yn rhan graidd o'r fframwaith dadansoddi a'r gwerthusiad. Mae'n ceisio sefydlu sut mae ymarferwyr wedi deall, dehongli a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau. Eir

ati i gyferbynnu hyn â'r ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei ddeall a'i gyflwyno yn yr ymdriniaeth ffurfiol (gweler adroddiad gwerthuso blaenorol ar y Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen – Maynard *et al.* 2013).

3.54 Hefyd, bydd yn rhoi disgrifiad manwl o ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn ystafelloedd dosbarth a lleoliadau. Yn benodol, bydd yn cymharu a chyferbynnu addysgeg ac ymarfer y Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

- Bore o gymharu â'r prynhawn;
- Yn ôl grŵp blwyddyn;
- Yn ôl 'categoriâu' o blant (e.e. rhywedd, AAA, paru gallu);
- Yn ôl 'categoriâu' ysgolion (e.e. cyfnod cyflwyno, maint yr ysgol, cyfrwng yr addysgu); ac
- Yn ôl 'categoriâu' athrawon dosbarth (e.e. profiad addysgu, cymarebau oedolion a disgyblion).

3.55 Wrth ddarparu disgrifiad o sut caiff y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno, bydd hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng gwahanol agweddau ar addysgeg. Yn benodol, bydd yn archwilio sut mae deuddeg dimensiwn y CS, y mae'r gwerthusiad wedi'u defnyddio wrth arsylwi mewn ystafelloedd dosbarth, yn perthyn i wahanol fathau o weithredu er mwyn datblygu teipoleg ddatblygedig o ymarfer y Cyfnod Sylfaen sy'n ymestyn y tu hwnt i nodweddion y Cyfnod Sylfaen yr arsylwyd arnynt mewn ysgolion. Er enghraifft, bydd hwn yn ystyried a ellir datblygu teipoleg ymarfer ar gyfer lefel y dosbarth neu lefel yr ysgol, ac a ddylid ei datblygu.

3.56 Bydd y papur gwaith hefyd yn archwilio esboniadau posibl ar gyfer unrhyw batrymau neu amrywiadau o ran dehongli, deall a chyflwyno addysgeg a chynnwys (cwrwclwm) y Cyfnod Sylfaen, gan ddefnyddio tystiolaeth cyfweiliadau ag ymarferwyr. Bydd dadansoddiad pellach yn cynnwys cymharu canlyniadau'r dadansoddiad hwn â chanlyniadau sydd i'w gweld mewn papurau gwaith eraill.

Papur gwaith 6: Yr amgylchedd (dan do/awyr agored)

- 3.57 Mae'r papur gwaith hwn yn ymwneud yn bennaf ag effaith y Cyfnod Sylfaen ar yr amgylchedd addysgu a dysgu. Bydd yn ystyried pa newidiadau ffisegol, os o gwbl, a wnaed mewn ysgolion a lleoliadau i'r amgylcheddau dan do ac awyr agored. Hefyd, bydd hwn yn ystyried costau'r newidiadau hyn a'r gwariant arnynt.
- 3.58 Yn ogystal, bydd y papur gwaith yn cynnig disgrifiad o sut caiff yr amgylcheddau dan do ac awyr agored eu defnyddio yn y Cyfnod Sylfaen, ac yn ystyried pa berthynas, os o gwbl, sydd rhwng yr amgylchedd dysgu ffisegol a ffactorau eraill, gan gynnwys y canlynol:
- Addysgeg a dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen;
 - Yr effaith ar gyfraniad a lles plant; a
 - Chategoriâu ysgolion (e.e. maint a lleoliad)

Papur gwaith 7: Y Gymraeg

- 3.59 Bydd y papur gwaith hwn yn ystyried y berthynas rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Gymraeg. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chyflwyno Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ymarfer cyffredinol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 3.60 Bydd y papur gwaith yn amlygu unrhyw ganfyddiadau'n ymwneud â gwahaniaethau rhwng gweithredu a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Hefyd, bydd yn nodi a fu unrhyw heriau penodol o ran gweithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, a bydd yn ceisio gwahaniaethu rhwng pwysigrwydd hyn a ffactorau eraill, fel ymdrochi, ysgolion bach a dosbarthiadau oedran cymysg.

3.61 Hefyd, bydd yn ystyried unrhyw ganfyddiadau'n ymwneud â gallu Cymraeg ymarferwyr (athrawon ac athrawon cynorthwyol). Gallai'r papur gwaith hefyd ddefnyddio canfyddiadau o'r Arolwg o Rieni/Gofalwyr, y disgwylir iddo gael ei gynnal yn ystod Cyfnod III y gwerthusiad.

Papur gwaith 8: Llythrennedd a Rhifedd

3.62 O ystyried pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd i Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn fwy diweddar ar draws ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2013), bydd y papur gwaith hwn yn ystyried y berthynas benodol rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r ddau faes dysgu hyn.

3.63 Yn benodol, bydd yn bwrw golwg ar addysgu a dysgu dau faes dysgu perthnasol y Cyfnod Sylfaen: medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Hefyd, bydd yn ystyried effaith bosibl cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar gyfer plant ym Mlwyddyn 2 (a hyd at Flwyddyn 9).

3.64 Gallai'r papur gwaith hwn hefyd geisio ymgorffori data o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ochr yn ochr â data a gafwyd eisoes o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

Papur gwaith 9: Enghreifftiau o ymarfer y Cyfnod Sylfaen

3.65 Nod y papur gwaith hwn fydd cynnig enghreifftiau byr o ymarfer y Cyfnod Sylfaen sy'n helpu i ddangos sut caiff y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth. Dewisir enghreifftiau i adlewyrchu ystod y gweithgareddau ac arferion ystafell ddosbarth a welir yn yr arsylwadau drwy gydol y gwerthusiad. Cyflwynir y rhain ochr yn ochr â gwybodaeth allweddol arall yn ymwneud â'r addysgeg sy'n cael ei defnyddio (deuddeg dimensiwn y Cyfnod Sylfaen), y ffordd o

weithredu ac ymdriniaeth ffurfiol y Cyfnod Sylfaen fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad Theori Rhaglen (Maynard *et al.* 2013).

Papur gwaith 10: Effeithiau sydd wedi'u hadrodd

- 3.66 Mae'r papur gwaith hwn yn ymwneud ag effeithiau'r Cyfnod Sylfaen, fel yr arsylwyd arnynt ac fel y mae rhanddeiliaid ac ymarferwyr wedi adrodd amdanynt. Bydd yn archwilio effeithiau cymharol y Cyfnod Sylfaen ar wahanol ddeilliannau ac ar wahanol grwpiau o blant.
- 3.67 Bydd y papur gwaith hefyd yn cyferbynnu'r effeithiau hyn sydd wedi'u hadrodd â'r materion pwysicaf mewn addysg y blynyddoedd cynnar ym marn penaethiaid (fel y'u hamlygir yn yr arolwg cenedlaethol).
- 3.68 Yn ogystal, gwneir dadansoddiad manwl o'r effeithiau hyn sydd wedi'u hadrodd er mwyn cael gwybod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau canlynol:
- Penaethiaid neu ymarferwyr arweiniol y CS;
 - Categorïau o ysgolion (e.e. natur economaidd-gymdeithasol y disgyblion sy'n cael eu derbyn, maint yr ysgol); ac
 - Agweddau tuag at gyflwyno a gweithredu'r CS.
- 3.69 Bydd y papur gwaith hefyd yn ystyried y berthynas rhwng y deilliannau sydd wedi'u hadrodd a deilliannau hysbys eraill (fel mesurau cyfraniad a lles plant, a'u hagweddau tuag at ddysgu).

Papur gwaith 11: Lles ac Ymglymiad Plant

- 3.70 Bydd y papur gwaith hwn yn archwilio effaith y Cyfnod Sylfaen ar ymglymiad plant at eu dysgu, eu hagweddau at ddysgu, mesurau gwrthrychol o les a'u hadroddiadau goddrychol ynghylch lles. Yn bennaf, bydd hwn yn archwilio arsylwadau ystafelloedd dosbarth a'r Arolwg o Ddisgyblion, a'i nod fydd nodi lefelau lles ac agweddau tuag

at ddysgu ymhlith plant Blwyddyn 2 yn yr ysgolion sy'n astudiaethau achos. Dyluniwyd yr arolwg gan ddefnyddio cwestiynau o Arolwg Astudiaeth Carfan y Mileniwm y Deyrnas Unedig o blant saith oed.

3.71 Bydd dadansoddi'r data yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Ymglymiad plant mewn ystafelloedd dosbarth fel y'i gwelwyd mewn arsylwadau;
- Lles plant mewn ystafelloedd dosbarth fel y'i gwelwyd mewn arsylwadau;
- Adroddiadau plant am lefelau lles ac agweddau tuag at ddysgu, yn ôl nodweddion cefndir plant Blwyddyn 2;
- Patrymau ymglymiad, lles ac agweddau tuag at ddysgu fesul ysgol astudiaeth achos;
- Patrymau ymglymiad, lles ac agweddau tuag at ddysgu fesul cyfnod cyflwyno (Peilot, Dechrau Cynnar, Cyflwyno Terfynol); a
- Chymariaethau rhwng ymglymiad, lles ac agweddau tuag at ddysgu gyda phlant cyfatebol yng ngharfan Astudiaeth Carfan y Mileniwm cyn cyflwyno'r CS (ar sail gwlad a newidynnau cefndir allweddol).

3.72 Yn ddiweddarach, bydd grwpiau ffocws y plant a nifer o gwestiynau yn yr Arolwg o Rieni/Gofalwyr a gwblheir yn ystod Cyfnod III y gwerthusiad yn ategu'r dadansoddiad hwn.

Papur gwaith 12: Pontio ac Asesu

3.73 Bydd y papur gwaith hwn yn canolbwyntio ar faterion 'pontio' yn y Cyfnod Sylfaen ac ar asesu. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng sut beth yw ymarfer y Cyfnod Sylfaen ar draws grwpiau blwyddyn mewn ysgolion, ffactorau'n ymwneud â mynediad i'r Cyfnod Sylfaen (o leoliadau cyn-Meithrin neu leoliadau Meithrin), a'r pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

- 3.74 Bydd y papur gwaith hwn hefyd yn ystyried materion yn ymwneud ag ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthiadau/lleoliadau oedran cymysg.
- 3.75 Yn olaf, bydd y papur gwaith hefyd yn ystyried materion yn ymwneud ag asesu neu olrhain plant i'r Cyfnod Sylfaen a thrwyddo, gan gynnwys defnyddio asesiadau adeg mynediad ac agweddau tuag at weithredu Asesiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen.
- 3.76 Gallai'r papur gwaith hefyd ddefnyddio canfyddiadau'n ymwneud â materion pontio a ddaw o grwpiau ffocws y plant a'r arolwg o rieni, a gynhelir yn ystod Cyfnod III y gwerthusiad.

Papur gwaith 13: Datblygiad y Cyfnod Sylfaen yn y Dyfodol

- 3.77 Bydd y papur gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol a bydd yn amlinellu unrhyw awgrymiadau gan ymarferwyr a rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid a/neu sut y dylid ei wella. Bydd yn cynnig cyfle hefyd i gynnwys safbwyntiau plant a rhieni ynghylch ei ddatblygiad yn y dyfodol.

Papurau gwaith 14 i 16: Dadansoddiadau o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

- 3.78 Mae tri adroddiad yn y gyfres hon sy'n manteisio ar ddadansoddiadau o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Mae'r cyntaf o'r rhain eisoes wedi'i gynhyrchu a'i gyhoeddi ac mae'n cynnwys cyfres gyntaf y dadansoddiadau sy'n ymwneud â deilliannau'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion hyd at 2010/11 (Davies *et al.* 2013). Yn benodol, mae'n adrodd ar y canlynol:
- Presenoldeb ac absenoldeb heb awdurdod;
 - Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau gan athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1;
 - Asesiadau gan athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2; ac

- Anghydraddoldebau mewn absenoldeb heb awdurdod, yn Neilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn asesiadau CA1.

3.79 Mae'r ail adroddiad yn y gyfres hon yn ailadrodd y dadansoddiad o adroddiad cyntaf yr NPD gyda data dwy flynedd ychwanegol – o 2011/12 a 2012/13. Mae'r rhain yn flynyddoedd pwysig gan eu bod yn cynnwys Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y ddwy garfan gyflawn gyntaf o blant Blwyddyn 2 yng Nghymru. Mae'r ail adroddiad yn y gyfres hefyd yn cynnig cyfle i ddatblygu ymhellach y strategaeth a'r dull o ddadansoddi data'r NPD.

3.80 Bydd y trydydd adroddiad yn y gyfres yn cyfuno'r dadansoddiadau blaenorol gyda data a chanfyddiadau sy'n cael eu cynhyrchu o Gyfnodau I, II a III y gwerthusiad. Yn bennaf oll, bydd hyn yn cynnwys:

- Y berthynas rhwng ymatebion i'r arolwg cenedlaethol ac amrywiadau ar lefel ysgol mewn presenoldeb a Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen;
- Y berthynas rhwng ymarfer a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- Ymglymiad a lles plant, a'u hagweddau at ddysgu; a
- Modelu'r deilliannau ar sawl lefel gan ddefnyddio'r NPD, yr arolwg cenedlaethol, ymweliadau ag astudiaethau achos a/neu'r arolwg o ddisgyblion.

3.81 Mewn cyferbyniad â phapurau gwaith eraill yn y Fframwaith Dadansoddi, bydd dadansoddiadau sy'n defnyddio'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Ddisgyblon yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Papur gwaith 17: Methodoleg

3.82 Bydd y papur gwaith olaf hwn yn cynnig adroddiad methodolegol o'r prif ddulliau a ddefnyddiwyd wrth gasglu data ar gyfer y gwerthusiad. Yn benodol, bydd yn ymwneud â rhoi manylion ynghylch y cynllun

samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer pob dull, dyluniad a datblygiad pob offeryn/dull (gan gynnwys cynllun peilot), y (gyfradd) ymateb ar gyfer pob elfen, a chyfyngiadau hysbys y dulliau.

Adrodd a Chyfathrebu

- 3.83 Trwy gydol 2013/14, bydd y tîm gwerthuso yn parhau i adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
- 3.84 Mae'r gwerthusiad hefyd yn disgwyl cynhyrchu nifer o adroddiadau yn ystod 2013/14. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Papurau Gwaith wedi'u seilio ar y Fframwaith Dadansoddi a drafodir uchod;
 - Cyfres o adroddiadau ar elfennau allweddol o'r gwerthusiad;
 - Adroddiad Terfynol Diwedd y Gwerthusiad.
- 3.85 Mae'r gwerthusiad hefyd yn disgwyl trefnu tri digwyddiad dosbarthu gwybodaeth yn ystod 2013/14. Bydd y ddau gyntaf yn seminarau ar raddfa gymharol fach, a chaiff cyfranogwyr eu gwahodd i drafod dau faes allweddol y Cyfnod Sylfaen sydd wedi cael sylw cymharol fychan yn ystod Cyfnodau I, II a III y gwerthusiad. Y rhain yw:
- Y Cyfnod Sylfaen ac Anghenion Addysgol Arbennig
 - Y Cyfnod Sylfaen a Phlant y mae Cymraeg/Saesneg yn Iaith Ychwanegol Iddynt
- 3.86 Bydd y ddwy seminar yn dod ag ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol ynghyd i drafod a rhannu eu hargraffiadau ynghylch y pynciau hyn. Yna, defnyddir y trafodaethau hyn i ddylanwadu ar y dadansoddiadau parhaus a amlinellir uchod.
- 3.87 Mae tîm y gwerthusiad yn disgwyl trefnu'r seminarau hyn yn ystod Tachwedd 2013.

- 3.88 Bydd y digwyddiad lledaenu gwybodaeth olaf yn gynhadledd diwedd gwerthusiad ar y Cyfnod Sylfaen. Bydd hwn yn ddigwyddiad ar raddfa gymharol fawr a fydd yn rhoi cyfle i rannu'r canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad gyda chynulleidfa eang o ymarferwyr, rhanddeiliaid a llunwyr polisi. Trefnir y gynhadledd er mwyn cynnig cyfle hefyd i roi adborth a chael trafodaeth cyn cyhoeddi'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol.
- 3.89 Mae tîm y gwerthusiad yn disgwyl trefnu'r gynhadledd hon yn ystod haf/hydref 2014.
- 3.90 Drwy gydol 2013/14, bydd gwefan y gwerthusiad yn parhau i gael ei diweddarau pan fydd Papurau Gwaith ac Adroddiadau Gwerthuso'n cael eu cyhoeddi a phan gaiff digwyddiadau eu trefnu. Bydd y gwerthusiad hefyd yn parhau i gynnal a defnyddio rhestr gyswllt ar gyfer rhannu newyddion o'r ymchwil.

Cyfeiriadau

- Brown, C.A. a Lilford, R.J. (2006) The stepped wedge trial design: a systematic review, *BMC Medical Research Methodology*, 6, 54.
- Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S., a Blackaby, D. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Deiliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1)*, *Ymchwil Gymdeithasol Rhif 47/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Gorard, S. a Taylor, C. (2004) *Combining Methods in Educational and Social Research*, London: Open University Press.
- Hussey, M.A. a Hughes, J.P. (2007) Design and analysis of stepped wedge cluster randomised trials, *Contemporary Clinical Trials*, 28, 2, 182-191.
- Landis, J.R. a Koch, G.G. (1977) The measurement of observer agreement for categorical data, *Biometrics*, 33, 1, 159–174.
- Leavers, F. (2005). *Well-being and involvement in care: A process oriented self-evaluation instrument for care settings*. Research Centre for Experiential Education: Leuven University.
- Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen*, *Ymchwil Gymdeithasol Rhif 37/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12*, *Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhestr o Dermau Allweddol

| | |
|-------------------------------|--|
| Modelu ar sawl lefel | Math o ddadansoddiad ystadegol yw hwn sy'n defnyddio data a drefnir ar fwy nag un lefel (h.y. data a gedwir o fewn adrannau eraill). Er enghraifft, gallai unedau dadansoddi mewn model ar sawl lefel gynnwys data am ddisgyblion unigol, yr ysgol y maent yn mynd iddi a'r awdurdodau lleol y mae'r ysgolion hyn wedi'u lleoli ynddynt. Yn anad dim, mae modelau ar sawl lefel yn ystyried cydrannau ar bob lefel yn yr hierarchaeth gan alluogi'r dadansoddiad i amcangyfrif effeithiau a welwyd neu na welwyd ar grwpiau. |
| Dyluniad cyflwyno fesul tipyn | Defnyddir hwn mewn gwerthusiadau lle cyflwynir yr ymyriad mewn modd olynol i'r rhai sy'n cymryd rhan (boed fel unigolion neu glystyrau o unigolion) dros sawl cyfnod amser. Cesglir data ar gyfer pob grŵp newydd sy'n cymryd rhan wrth iddynt dderbyn yr ymyriad yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn derbyn yr ymyriad (y grwpiau rheoli). I weld pa mor effeithiol yw'r ymyriad, caiff data o'r grwpiau rheoli ei gymharu â'r rheiny sydd yn derbyn yr ymyriad ar wahanol adegau. |

Atodiad A. Alyson Lewis, Crynodeb o Gynnig Ymchwil PhD yr ESRC

Teitl

Tuag at ddealltwriaeth gyffredin o gysyniad cymhleth: astudiaeth archwiliadol sy'n ymchwilio i, a chael darlun o, les cymdeithasol ac emosïynol plant yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen (plant 3-7 oed).

Crynodeb o'r prosiect ymchwil

Mae'r astudiaeth hon yn brosiect PhD 3 blynedd a ariennir gan yr ESRC (o Hydref 2012 i Hydref 2015) ac fe'i cysylltir â phrosiect o'r enw 'Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen' (cwricwlwm i blant 3 i 7 oed yng Nghymru) a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Yn anad dim, bydd cynllun yr astudiaeth yn astudiaeth achos archwiliadol ansoddol a chymharol ar raddfa fach sy'n ymchwilio i'r cysyniad o les mewn dwy ysgol sydd â statws economaidd-gymdeithasol gwahanol. Bydd dau gam i'r ymchwil.

Bydd cam un yr astudiaeth yn cynnwys meithrin partneriaeth gadarn â dwy ysgol a sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda phawb sy'n cymryd rhan. Yn y cam hwn, cesglir amgyffredion lluosog ynghylch lles oddi wrth ymarferwyr (athrawon a chynorthwyrwyr addysgu yn bennaf) i ddarganfod beth mae lles yn ei olygu iddynt a chael gwybod sut maent yn ei gofnodi a'i asesu yn y Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2). I ddechrau, cynhelir hyn yn anffurfiol mewn cyfweiliadau grwpiau ffocws lle y gofynnir i staff gofnodi (gyda'i gilydd, ar dempled mawr) beth yw lles, yn eu tyb nhw. Hefyd, cynhelir cyfweiliadau unigol sydd wedi'u strwythuro'n rhannol. Bydd cam un hefyd yn cynnwys arsylwadau yn y dosbarthiadau gwahanol i ddeall sut mae lles yn cael ei gefnogi a'i hybu yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd cam dau'r astudiaeth yn cynnwys defnyddio'r canfyddiadau o gam un i a) nodi pa agweddau ar les ac amgyffredion ynghylch lles sy'n bodoli yn eu hymatebion ac i b) hwyluso datblygiad dulliau newydd neu gyfredol wrth gael darlun o les yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y cam hwn yn cynnwys cynnal

peilot o ddau ddull sydd â nodweddion gwahanol, a chaiff plant a rhieni wahoddiad i gymryd rhan ynddo.

Nodau

- Dangos a dadlau bod y cysyniad o les cymdeithasol ac emosiynol plant yn gymhleth mewn theori ac yn ymarferol.
- Archwilio a datblygu dulliau sy'n cipio darlun o les cymdeithasol ac emosiynol plant yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Cwestiynau ymchwil

- 1) Sut caiff lles ei ddeall, ei gofnodi a'i asesu gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn dwy ysgol wahanol a sut mae lles wedi'i ymgorffori yn yr ystafell ddosbarth?
- 2) Pa nodweddion sy'n bresennol mewn dulliau newydd neu ddulliau cyfredol sy'n eu gwneud yn fwy dibynadwy wrth gael darlun o agwedd benodol ar les cymdeithasol ac emosiynol plant?
- 3) Pa rwystrau sy'n bodoli mewn dulliau newydd a chyfredol sy'n cipio darlun o agweddau ar les cymdeithasol ac emosiynol plant?